
www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 493
Awst a Medi
2021

## Argyfwng Tai Haf a Dyffryn Peris

Mae'r argyfwng tai haf yn y penawdau unwaith eto a ffactorau fel Covid-19 a Brexit yn dwysáu'r broblem gan olygu nad ydi pobl leol yn gallu fforddio byw yn y cymunedau lle cawsant eu magu. Mae pentrefi ardal yr Eco yn cael ei effeithio fel cymaint o fröydd Cymraeg, darllenwch fwy am y problemau, y cynlluniau a'r dadlau ar dudalen 4.



## Yn y rhifyn hwn:


- Be wna'i dros yr haf? **Tud 5**
- Y Festri, Llanberis **Tud 10**
- Brodorion Bro'r Eco ar Draws y Byd **Tud 20**
- Colofn Llên Natur **Tud 25**
- Clwb Pêl-droed Merched Bethel **Tud 31**


**a mwy!**



12



8



16



Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

Ydych chi'n gallu dod o hyd i Elin Enfys? Chwiliwch am yr arth fach ddireidus yn cuddio 8 gwaith rhwng y tudalennau!

CYMRAEG

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**Ffotograffwr**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths
post@elgangriffiths.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

**Nant Peris:**
Kate Pritchard
01286 675384.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk


**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Mae yna dîm o olygyddion yn cefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r Eco, sef Beca Brown, Gwenllian Carr, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Mared Roberts a Marged Rhys.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658



Croeso i rifyn dwbl yr haf, gyda newyddion Awst a Medi. Gobeithio y gwnewch ei fwynhau! Cofiwch mai'r dyddiad er mwyn derbyn cynnwys ar gyfer y rhifyn nesaf yw 10fed Medi.

Diolch yn fawr i bawb sy'n cyfrannu, a phob hwyl dros yr haf i'n holl ddarllenwyr.

# Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£50 Er cof am Wavell Roberts gan y teulu
£30 Er cof am Mr Aled Foulk Jones, Ysgoldy Cottage, Deiniolen
£40 Er cof am Grace Wynne Jones gan y teulu (Penybryn, Saron)
£20 Rhodd di-enw, Deiniolen
£10 Gwen ac Elwyn Jones, 6 Llys y Gwynt, Penisarwaun
£5 Margaret Williams, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen



## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Hydref | 10 Medi | 24 Medi |
| Tachwedd | 14 Hydref | 28 Hydref |
| Rhagfyr | 11 Tachwedd | 25 Tachwedd |



## Llythyrau

**Llythyr gan y Panel Golygyddol**

Pan oedd y rhifyn hwn o'r Eco ar ei ffordd i'r wasg doedd y Prif Weinidog Mark Drakeford heb gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer llacio, neu beidio, y rheolau gwarchod rhag Covid-19. Er hynny, mae'r sïon oedd yn dod o gyfeiriad Bae Caerdydd, a record y llywodraeth drwy gydol y pandemig, yn awgrymu mai gan bwyll bach y bydd y cyfyngiadau yn cael eu llacio gyda'r gofyn i wisgo mwgwd mewn mannau cyhoeddus yn parhau.

Mae'n ddealladwy bod busnesau, clybiau chwaraeon a digwyddiadau cyhoeddus yn erfyn am lacio ychydig ar y rheolau pellhau cymdeithasol. Gyda'r rhan fwyaf ohonom yn aros adref neu'n cymryd gwyliau 'lleol' dros yr haf, gallwn bob un rhoi hwb bach i'n heconomi leol drwy siopa gyda'n busnesau bach a chadw'r bunt yn lleol.

Beth bynnag fydd penderfyniad terfynol y llywodraeth mae gennym bob un gyfrifoldeb personol i warchod ein hunain a'r naill a'r llall, ac i barchu teimladau pobl eraill os nag ydyn nhw eto yn teimlo'n ddigon hyderus i gymysgu'n agos â phobl eraill mewn mannau cyhoeddus. Fydd hi ddim yn hawdd i bawb gamu 'yn ôl' i fywyd fel yr oedd o cyn i Covid-19 gyrraedd. Tydi hi ddim yn fater o ddeffro rhyw fore a gweld bod bywyd 'normal' wedi dychwelyd. Rhaid derbyn na fydd pethau'r un fath, ac fe all gymryd sbel i nifer ohonom addasu wrth i'n cymunedau ail-agor.

Wedi dweud hynny, mae'r pandemig hefyd wedi dangos ein cymunedau ar eu gorau. Pobl yn helpu ei gilydd yw sylfaen cymunedau cryf, ac rydym yn sicr wedi gweld hynny! Diolch i ymdrechion anhygoel staff a gwirfoddolwyr y rhaglen frechu mae yna obaith gwirioneddol ar y gorwel. Gyda'r haul yn gwenu (gobeithio!) dros yr haf mae yna deimlad positif yn yr aer. Beth am godi'r ffôn ar yr aelod yna o'r teulu neu'r ffrind 'da chi heb eu gweld ers oes pys a gwneud y gorau o'r tywydd braf drwy gynnig mynd am dro neu eistedd yn yr ardd i gael sgwrs? Beth am holi os oes yna rywun yn lleol angen 'chydig o gwmni, ac y buasai cael sgwrs dros baned yn gallu codi calon? Yn syml, defnyddiwn dywydd braf yr haf fel esgus perffaith i gysylltu â'n gilydd unwaith eto.

# Pigion Bro Wyddfa 360

Bro Wyddfa 360

**Gŵyl newydd sy'n helpu cymunedau i gamu mlaen o Covid-19**

Mae wedi bod yn flwyddyn od iawn i Bro360. Fel arfer byddai straeon o ddigwyddiadau'r haf wedi llenwi ein gwefannau lleol yn cynnwys BroWyddfa360. A byddai gweithgareddau cymdeithasol wedi llenwi bywydau pobol yr ardal hon hefyd. Bu'n rhaid i ni i gyd addasu.

O ganlyniad i'r Cyfnod Clo, ein milltir sgwar oedd ein byd. Trodd trigolion yn gymdogion sy'n estyn llaw. Gwelsom rinweddau ein hardal leol o'r newydd. Daeth cefnogi busnesau bach yn beth mawr.

Mae pwysigrwydd ein cymuned a'r lle lleol yn fwy amlwg nag erioed. Ac ar ôl blwyddyn (a mwy!) o eistedd yn y tŷ, a sgwrsio ar zoom, mae angen i bawb gael rhywbeth cymdeithasol, positif i edrych ymlaen ato. Mae rŵan yn gyfle perffaith i ddathlu ein bro trwy ddod ynghyd!

**Mae Bro360 yn gwahodd cymunedau Dyffryn Peris a Dyffryn Gwyrfai i gynnal gweithgaredd ar benwythnos cyntaf (3-5) Medi i frolio eich bro.**
Fesul pentrefi, plwyfi, trefi neu strydoedd, gall pawb gynnal rhywbeth bach (neu fawr!) a syml (neu uchelgeisiol!) i ddathlu hanes, talentau a phobol ein bro. I fwynhau yng nghwmni ein gilydd unwaith eto. Bydd gŵyl pob bro yn wahanol. Oherwydd, wrth gwrs, does dim un ardal yr un peth. Ac mae Bro360 yma i helpu gyda'r dathlu a'r mwynhau!

Mae'r Pecyn Gŵyl Bro yna i helpu unrhyw un sydd eisiau trefnu gweithgaredd. Mae croeso i unrhyw un yn unrhyw fro archebu pecyn, am ddim. Mae'n cynnwys popeth sydd ei angen arnoch i'ch helpu: i feddwl am syniadau fel criw; i drefnu digwyddiad gan ddilyn rheolau Covid-19, i ddenu pobol newydd i mewn, i rannu cynnwys a straeon yn fyw o'ch digwyddiad ar wefan BroWyddfa360, a llawer mwy.

Er mwyn archebu pecyn Gŵyl Bro, ebostiwch post@360.cymru.




## Yn ystod y mis aeth heibio...

- **Babanod** - Mae gwraig o Pretoria, De Affrica wedi rhoi genedigaeth i ddeg – saith o fechgyn a thair geneth.
- **Brasder** - Credir fod math arbennig o frasder asidig sydd i'w gael mewn olew pysgod yn debygol o leddfu symptomau iselder dwys mewn cleifion.
- **Tegeirian** - Mae math arbennig o'r blodyn, a elwir yn degeirian y tafod, ac sy'n gyffredin yng ngwledydd Môr y Canoldir, wedi ei ddarganfod mewn gardd ar ben to banc yng nghanol Llundain. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei weld ym Mhrydain ers 30 mlynedd.
- **Iaith** - Katrina Esau, gweddw dros ei phedwar ugain oed, yw'r unig un sy'n siarad iaith N/uu yn rhugl, sef iaith pobl y San yn neheudir Affrica. Erbyn y 1990'au doedd dim ond rhyw ugain o bobl yn gallu siarad yr iaith. Katrina yw'r unig un sy'n weddill, ond mae bellach yn dysgu'r iaith i blant ac ieuenctid ei hardal. Gyda chymorth academyddion o Brifysgol Bloemfontein mae'r iaith erbyn hyn yn ysgrifenedig, a gwerslyfrau wedi eu cyhoeddi. Mae N/uu yn iaith wahanol oherwydd bod clician yn rhan ohoni. Mae'n cynnwys 114 o synnau gwahanol: 45 clic, 30 cytsain di-glic a 39 o lafariaid.
- **Ynni** - Erbyn 2025 rhagwelir y bydd y Grid Cenedlaethol yn cynhyrchu trydan am gyfnodau hir heb orfod llosgi tanwydd.
- **Hysbysebu** - Yn ystod cystadleuaeth pêl-droed yr Euros, pan symudodd Cristiano Ronaldo ddwy botel Coca-Cola o'r neilltu a galw 'aqua' am botel o ddŵr, disgynnodd gwerth cyfranddaliadau'r cwmni o £2.8 biliwn.
- **Diemwnt** - Mae'r trydydd diemwnt mwyaf erioed wedi ei ddarganfod yn Botswana. Y 'Cullinan' a ddarganfuwyd yn Ne Affrica yn 1905 oedd y mwyaf. Ers y darganfyddiad mae dros fil o bobl wedi heidio i'r ardal yn y gobaith o ddarganfod diemwnt arall – a gwneud eu ffortiwn.
- **Pypedau** - Mae dau o bypedau gwreiddiol y gyfres deledu '*The Muppets*' i'w rhoi mewn ocsiwn. Disgwylir iddynt werthu am tua £40,000.
- **Treftadaeth** - Gydag ardal y llechi yn disgwyl i glywed a gafodd ei dynodi yn Safle Treftadaeth Byd, mae Harbwr Lerpwl mewn perygl o golli'r statws hwnnw gan UNESCO; felly hefyd Venice a Bariff Mawr Awstralia. Hynny oherwydd llacio'r rheolaeth a enillodd y statws iddynt yn y lle cyntaf.
- **Hinsawdd** - Mae arolwg diweddar gan gorff sy'n dadansoddi newidiadau hinsoddol yn rhagweld y gall rhannau helaeth o Gaerdydd ac Abertawe fod dan wyneb y môr erbyn 2050.
- **Iechyd** - Mae Awdurdodau Iechyd yn rhybuddio y gall ffliw fod yn fwy marwol na Covid-19 yn ystod y gaeaf i ddod.
- **Anlwc** - Mae cricedwr yn Halifax yn edifar iddo daro'r bêl am chwech oherwydd iddi lanio ar ffenestr flaen ei gar newydd sbon a'i chwalu'n deilchion.
- **Efeilliaid** - Mae panda o'r enw Shin-Shin wedi rhoi genedigaeth i efeilliaid mewn sŵ yn Japan; y tro cyntaf iddo ddigwydd mewn unrhyw sŵ yn y wlad honno.
- **Hufen Iâ** - Yn y flwyddyn ddiwethaf mae dros 800 o faniau hufen iâ wedi peidio gweithio o ganlyniad i gyfyngiadau rheoli'r pandemig. Mae dros 2,00 o weithwyr wedi colli eu gwaith.
- **Mathemateg** - Mae arolwg led-led y byd sy'n cynnwys dros 9,000 o blant wedi dangos fod ymarfer corfforol rheolaidd yn gwella perfformiad academaidd, ond yn enwedig mewn mathemateg.
- **Graphene** - Mae'r deunydd 'gwyrthiol' a gafodd ei ddarganfod yn 2004 a'i ddefnyddio i wneud adenydd awyrennau, paent nad yw'n cyrydu, a batris, bellach yn gwarchod wyneb ffyrdd. Mae haen denau o atomau carbon yn cael ei ychwanegu i ffyrdd ac yn eu cadw am fwy o amser cyn gorfod cael eu hadnewyddu.
- **Glo** - Mae Norwy yn rhoi'r gorau i gloddio yn y pwll glo olaf yn yr Arctic, a throi'r ardal yn Barc Cenedlaethol anferth fydd yn gartref diogel i eirth polar, morloi a miloedd o adar môr.

# Argyfwng Tai Haf a Dyffryn Peris



Llun Lleucu Meinir

**Rali Nid yw Cymru ar Werth, Tryweryn, Gorffennaf 2021**

Mae'r geiriau 'argyfwng tai haf' wedi bod yn gyfarwydd ers degawdau i ni yng Nghymru, ond yntydi'r ymadrodd yn baradocs chwerw? Ystyr argyfwng neu *emergency* yw sefyllfa ddifrifol sydd angen sylw brys; ac eto mae'r awdurdodau wedi difrïo neu anwybyddu protestiadau mudiadau a chymunedau sy'n poeni am ddyfodol broydd a'r iaith Gymraeg dro ar ôl tro ar hyd y blynyddoedd.

Beth ydi tai haf felly? Mae dau ystyr erbyn hyn, sef ail gartrefi a llety gwyliau. Dwy broblem wahanol sy'n cael effaith debyg, effaith negyddol iawn o gau pobl leol o'r farchnad dai ac o sugno bywyd allan o gymunedau. Yn ôl yr arbenigwyr mae'n rhaid taclo'r ddwy broblem mewn ffyrdd gwahanol, drwy bolisïau cynllunio gofalus iawn a threthu – mae'n gymhleth yntydi.

Mae'r cyfnod diwethaf wedi dwysáu'r argyfwng mewn sawl ardal, wrth i ddiwydiant llety gwyliau Airbnb ddod yn fwyfwy poblogaidd. Caiff tai eu prynu i'w llogi dros yr app gan ei gwneud hi bron yn amhosib i bobol leol brynu cartrefi cyntaf mewn rhai ardaloedd. Mae pentrefi fel Llanberis wedi diodde' heb os, gyda hyd at hanner tai rhai strydoedd yn y pentref bellach yn dai gwyliau yn anffodus. Ydych chi, fel fi, wedi clywed straeon brawychus yn ddiweddar am arwerthwyr tai yn creu deunydd marchnata ar gyfer gwerthu tai lleol i ddenu prynwyr cefnog o Loegr?

Er bod ail gartrefi yn ardal Dyffryn Peris, cartrefi mewn cymunedau yn troi'n llety gwyliau yw'r prif fygythiad ar hyn o bryd. Mae'r broblem yn un wahanol mewn ardaloedd eraill, e.e. Nefyn neu Abersoch, tai haf yn yr ystyr draddodiadol sy'n gwasgu'r cymunedau yno.

Ar ben hyn mae 'storm berffaith' Brexit a Covid-19 wedi golygu fod dod ar wyliau i Gymru yn fwy poblogaidd nag erioed a mwy byth yn prynu ail gartrefi er mwyn dianc o'r dinasoedd. Mae hyn yn cael y bai am godi prisiau tai a gwneud cymunedau mewn llawer o ardaloedd gwledig yn anfforddiadwy. Yr ardaloedd hyn yn aml ydi cadarnleoedd y Gymraeg hefyd wrth gwrs. Datgelwyd yr wythnos hon fod bron i hanner yr holl gartrefi a werthwyd yn Nwyfor Meirionnydd yn ystod 2020-21 i gael eu defnyddio fel ail gartref; dyma yn wir ydi penllanw'r argyfwng.

O'r diwedd fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi addo taclo'r broblem, a chyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd yn datblygu cynlluniau ac yn ymgynghori er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau prisiau tai uchel ar gymunedau a'r Gymraeg. Bydd y cynlluniau yn cynnwys sefydlu ardal beilot yng Nghymru lle bydd polisïau newydd yn cael eu treialu cyn eu cyflwyno'n ehangach.

Bydd y Llywodraeth yn canolbwyntio ar dair gwedd:

Cefnogaeth i sicrhau fforddiadwyedd ac argaeledd tai;

Cyflwyno cynllun cofrestru statudol ar gyfer llety gwyliau;

Defnyddio systemau trethiant lleol a chenedlaethol i sicrhau bod perchnogion ail gartrefi yn gwneud cyfraniad teg i'r cymunedau maen nhw'n prynu tai ynddynt.

Fodd bynnag, cafodd y cynlluniau eu beirniadu fel rhai "gwan" gan Blaid Cymru, dywedodd Llefarydd Tai Plaid Cymru, Mabon ap Gwynfor AS, nad oedd wedi creu argraff arno.

"Mae Plaid Cymru yn mynnu ymyriadau uniongyrchol i liniaru'r argyfwng tai, gan gynnwys treblu'r dreth Trafodiad Tir ar brynu Ail Gartrefi, newid deddfau cynllunio i ganiatáu i gynghorau osod cap ar nifer yr ail gartrefi, a chau'r bwlch sy'n caniatáu i berchnogion tai ail cofrestru eu heiddo fel "busnesau" er mwyn osgoi talu premiwm treth y cyngor, a diwygio'r Ddeddf Llywodraeth Leol i rymuso awdurdodau lleol i reoli'r stoc dai yn well."

Mae'r Llywodraeth yn dweud mai hwn ydi'r haf o weithredu; meddai'r Gweinidog Newid Hinsawdd Julie James a Gweinidog y Gymraeg, Jeremy Miles, "Mae sicrhau bod pobl leol yn gallu fforddio byw yn y cymunedau lle cawsant eu magu, a sicrhau iechyd a bywiogrwydd y Gymraeg fel iaith gymunedol sy'n mynd o nerth i nerth yn brif flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru."

Mae un peth yn sicr, o'r diwedd mae awydd go iawn i fynd i'r afael â'r argyfwng tai haf. Gobeithio wir nad ydi hi'n rhy hwyr.




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk



DODREFN A LLORIAU

PERKINS

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

# Be wna'i dros yr haf?

**Hamdden a ffitrwydd i blant a phobl ifanc**




Angen difyrru plant a phobl ifanc rhwng 0-16 oed? Ewch i wefan www.bywniach.cymru/bywniach-arfon-caernarfon/haf-o-hwyl i weld rhaglen o weithgareddau hamdden ffitrwydd fydd yng Nghanolfan Byw'n Iach Arfon dros yr haf, gyda rhai am ddim a rhai ble mae'n rhaid talu ffî.

O achos cyfyngiadau Covid-19, mi fydd rhaid archebu lle o flaen llaw ar gyfer pob sesiwn. Mae'r sesiynau'n siŵr o lenwi'n sydyn, felly rydym yn awgrymu cynllunio o flaen llaw! Er mwyn trefnu lle, ffoniwch 01286 676451 / 676945.

Bydd rhaid i bob plentyn/person ifanc fod yn aelod i archebu lle, ond cofiwch fod aelodaeth ar gael yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc o 0 i 16 oed. Holwch yn eich canolfan lleol yn fuan i sefydlu aelodaeth os nad ydyn nhw'n aelodau'n barod.

Dyma engreifftiau o rai o'r gweithgareddau sydd *am ddim*!

Gwersi nofio swigod - 0-3 oed
Chwarae meddal dan do - 0-5 oed
Sesiynau beicio balans - 3-4 oed
Aml-chwaraeon blwyddyn 1-3 (6-8 oed)
Aml-chwaraeon blwyddyn 4-6 (9-11 oed)
Sesiwn *inflatables* yn y pwll - 8-11 oed
Sesiwn nofio am ddim pobl ifanc 8-16 oed

Mae **Sialens Ddarllen yr Haf**, sydd wedi ei lansio mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, yn annog plant rhwng 4 ac 11 oed i ddarllen er mwyn pleser dros wyliau'r haf. Y thema yw 'Arwyr y Byd Gwyllt', mewn partneriaeth â WWF, gan annog plant ledled y wlad i gymryd rhan mewn gweithgaredd darllen hwyliog sy'n canolbwyntio ar faterion amgylcheddol.

Ewch i www.cymru.summerreadingchallenge.org.uk i gael mwy o wybodaeth, neu holwch yn ein llyfrgell leol. Chwiliwch am #SialensDdarllenyrHaf ac #ArwyryBydGwyllt ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd am fwy o wybodaeth.

**Ysgol Celf Haf i bobl ifanc 14-18 oed**
Mae'r rhaglen yma yn cael ei rhedeg gan Galeri Caernarfon. Cyfle i weithio gydag artistiaid proffesiynol i ddatblygu sgiliau a chael bod yn greadigol. Pythefnos o Ysgol Celf Haf ar y dyddiadau canlynol 03, 04, 05, 06, 10, 11, 12, 13 o Awst 10:30yb - 3:30yp.

Ffi'r prosiect ydi - Wythnos 1 £25** y person am 4 sesiwn neu £45** am bythefnos (**bwrsari ar gael).

Cysylltwch am fwy o wybodaeth a ffurflen gais trwy e-bost i rebecca.hardy-griffith@galericaernarfon.com




**Teithiau cerdded Menter Fachwen**
Hwre, mae'r teithiau cerdded yn eu holau! Mi fydd trefn newydd ar bethau am y tro oherwydd y cyfyngiadau Covid-19:

1. Bydd y nifer sydd yn dod ar y teithiau yn cael ei gyfyngu i 12 (uchafswm) ar hyn o bryd.
2. Mae RHAID i chi archebu eich lle o flaen llaw. Y cyntaf i'r felin fydd y drefn.
3. Rhaid archebu trwy ein e-bost.
4. Dim ond y sawl bydd yn derbyn ateb sydd yn cael dod. Dyna pryd byddwn yn rhoi manylion y man cychwyn. Peidiwch a phoeni – byddwn yn ail-adrodd yr un teithiau yn aml fel bod pawb yn cael cyfle.
5. Gofynnwn yn garedig i bawb sydd yn dod ar y teithiau i ddod â 'glanweithydd dwylo' gyda nhw.
6. Bydd rhaid cadw at 'cadw pellter cymdeithasol' yn ystod y teithiau.

Taith "O naaaaaa!....mae o'n ôl!!!!"……..
Martin Savies (ardal)!
Archaeoleg Moel Faban (5 milltir). Cymedrol i anodd, ond cawn gymryd ein hamser.
Pryd? – Gwener 30 Gorffennaf 1.30PM, ond archebwch eich lle erbyn 5 o'r gloch dydd Mercher 28ain Gorffennaf.

**Cerdded Nordig**
Mae Caroline Moncrieff wedi ail-gychwyn ar y rhaglen o deithiau bob dydd Iau. Cysylltwch â'r Fenter os hoffwch gael rhagor o fanylion - garethroberts754@yahoo.co.uk neu 01286 872014. Ewch i www.facebook.com/menterfachwen i weld y newyddion diweddaraf.

**Crefftau a thecstiliau**
Ewch i tecstilau.org i archebu eich lle ar eu dewis o gyrsiau fydd yn cael eu cynnal dros yr haf yn Y Bedol, Bethel. Mae'r rhain yn addas i oedolion yn bennaf. Cewch ddysgu sut i wneud powlenni ffelt, neu wehyddu gyda llaw, neu greu glöyn byw organza.

**Amgueddfa Lechi Cymru**
Bydd yr Amgueddfa ar agor bob diwrnod o'r wythnos (yn hytrach na 5 diwrnod) o 19 Gorffennaf, a hynny am y tro cyntaf ers cychwyn y pandemig. Bydd angen parhau i archebu tocyn mynediad am ddim o flaen llaw drwy wefan yr amgueddfa - www.amgueddfa.cymru/llechi/ymweld

**Sinema Galeri**
Dyma arwydd bod 'chydig o 'normalrwydd' yn dychwelyd, gan fod sinema Galeri yn ail-agor am dridiau'r wythnos o ddydd Gwener 23ain Gorffennaf. Bydd capasiti'r sinema yn sylweddol is na'r arfer, er mwyn cydymffurfio â rheolau Covid-19 Llywodraeth Cymru, a dim ond ar-lein y mae'n bosib i chi archebu tocynnau.

**Eisteddfod Gudd**
Efallai nad yw'r Eisteddfod yn cael ei chynnal yn Nhregaron eleni, ond mae 'na drefniadau cudd ar waith i greu parti mawr i Gymru gyfan, fel rhan o Eisteddfod AmGen. Parti mawr sy'n llawn cerddoriaeth, sesiynau a llond lle o hwyl! Mae'r Eisteddfod Gudd, a noddir gan Brifysgol Aberystwyth, yn ffrwydrad ffantastig o ffrydio sy'n cael ei gynnal dros benwythnos cyntaf Awst - ac mae croeso mawr i bawb ymuno heb orfod gadael y tŷ neu'r ardd. Mae'n gyfle i fwynhau bandiau a pherfformwyr gorau Cymru'n fyw ar sgrin, ffôn, neu os ydych chi'n teimlo'n uchelgeisiol a thechnegol, beth am wylio ar sgrin fawr yn yr ardd gyda chriw o ffrindiau - wrth i bopeth ffrydio'n fyw ac am ddim? Mae brodorion o Fro'r Eco, Alffa a Gwilym Bowen Rhys ymysg llu o berfformwyr gwych sy'n rhan o'r digwyddiad. Ewch i www.eisteddfod.cymru am fwy o wybodaeth

**Chwaraeon**
Yn olaf… hir fu'r aros ond mae gennym yr hawl unwaith eto i fynd i wylio pel-droed yn cael ei chwarae ar gae go iawn yn hytrach na thrwy sgrîn deledu. Beth am fynd i gefnogi'r holl dimau lleol a rhoi hwb gwirioneddol i'n clybiau, sydd wedi bod trwy'r felin dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Hei lwc iddynt i gyd!



# 10 DEG Y DYSGWYR

*Cyfle i ddod i adnabod siaradwyr Cymraeg newydd yr ardal drwy gyfrwng deg cwestiwn yr Eco.*



**Enw**: Stel Farrar
**Byw yn**: Dinorwig
**Fy ngwaith a diddordebau**:
Gwaith - Darlithydd Bioleg a thiwtor Cymraeg i Oedolion.
Diddordebau - fy mhlant, beicio, nofio dŵr agored, mynydda.

**1 Roeddwn i eisiau dysgu Cymraeg oherwydd:**
Ro'n i eisiau magu teulu Cymraeg iaith gyntaf oherwydd bod ni'n byw yng Nghymru.

**2 Fel hyn wnes i/rydw i'n dysgu Cymraeg:**
Mi ges i sylfaen patrymau'r iaith wrth fynychu cwrs Wlpan. Wnes i ymarfer trwy benderfyniad siarad Cymraeg efo fy mabi, Robin a gwrando ar Radio Cymru. Doedd gen i ddim ond un ffrind Cymraeg ar y pryd ac roedd hi'n byw yn bell i ffwrdd, ond pan ro'n i'n ei gweld, dim ond Cymraeg roedden ni'n siarad. Doedd 'na ddim yr adnoddau arlein sydd ar gael rwan wrth gwrs.

**3 Y peth gorau am ddysgu Cymraeg yw:**
Bod yn ddwyieithog. Fedra i ddim meddwl bod hi'n bosib mwynhau fy mywyd yma yng Nghymru heb fedru siarad Cymraeg.

**4 Y peth gwaethaf am ddysgu Cymraeg yw:**
Does 'na ddim byd drwg am ddysgu Cymraeg ond os mae'r dosbarth yn ddiflas, mae'n bwysig ffeindio un arall. Mae 'na gymaint o gyrsiau ar gael a ffyrdd gwahanol o ddysgu'r iaith ar gael rŵan.

**5 Dyma fy hoff air neu ddywediad Cymraeg, a pham:**
Cariad - mae'n gymaint gwell 'na 'girlfriend/ boyfriend' sydd yn eiriau amherthnasol i'r gymdeithas heddiw. Yn ogystal, mae'n ystyried eich bod chi'n caru'r person, sydd yn hyfryd.

**6 Gall siaradwyr mamiaith helpu dysgwyr drwy:**
Mynnu siarad Cymraeg efo nhw pob amser.

**7 Fy moment fwyaf balch wrth ddysgu:**
Anodd cofio, gan wnes i ddysgu 35 mlynedd yn ôl. Dwi'n cofio un achlysur arbennig. Roedd dyn oedd yn gwerthu tŷ i ni tua 37 mlynedd yn ôl ddim eisiau gwerthu ei dŷ i Saeson. Wnes i ei berswadio trwy ddeud mod i am ddysgu Cymraeg ac anfon fy mhlant i'r Ysgol Gymraeg leol.
Blynyddoedd wedyn wnes i gwrdd â fo ar Stryd Fawr, Bethesda. Roedd yn emosiynol iawn iddo fo sylweddoli fod o ddim wedi mynd yn erbyn ei egwyddorion. Ro'n i'n magu teulu Cymraeg ac roedd o wedi fy ngweld yn y cyfryngau yn siarad Cymraeg. Roedd o'n medru cysgu yn dawel ei feddwl wedyn!

**8 Fy nhro trwstan mwyaf wrth ddysgu:**
Wel, ro'n i'n trio esbonio wrth y fydwraig mod i'n poeni am y ffaith 'mod i ddim yn codi pwysau, yn lle dweud 'mod i'n poeni mod i ddim yn rhoi pwysau ymlaen! Roedd y fydwraig yn gwybod mod i'n gwneud lot o ymarfer corff trwy feicio pob man, ond roedd codi pwysau'n beth od i eisiau gwneud a finnau wyth mis yn feichiog! (Dwi erioed wedi bod i'r 'gym' neu godi pwysau yn fy mywyd!)

**9 Rydw i/roeddwn i'n sbarduno fy hun i barhau i ddysgu drwy:**
Doedd dim dewis i mi. Doedd fy ngŵr ddim yn siarad Cymraeg, felly heb i mi fagu fy mhlant yn Gymraeg, 'sa'r plant ddim wedi bod yn Gymraeg iaith gyntaf. Yr amser anoddaf i barhau gyda'r Gymraeg oedd ein blwyddyn yn Seland Newydd ym 1991. Dim ond fi a fy mab hynaf Robin oedd yn siarad Cymraeg efo'n gilydd. Doedd 'na ddim mewnbwn arall (doedd 'na ddim rhyngrwyd ar y pryd) am flwyddyn a finnau'n ymwybodol bod fy iaith angen ei gwella. Beth bynnag, wnaethon ni lwyddo, a siaradon ni ein dau am flwyddyn cyfan heb glywed gair o Gymraeg gan neb arall!

**10 Dyma mae'r iaith Gymraeg yn ei olygu i mi:**
Fy nheulu, fy ngwaith, fy ngwlad. Mae gen i lawer o ffrindiau da sy' ddim yn siarad Cymraeg. Dwi ddim yn feirniadol ohonynt, eu dewis nhw ydi hynny, ond dwi yn eu cwestiynnu nhw pan mae rhai ohonynt yn anfon eu plant i ysgolion Saesneg.

# Cam yn nes at y Feddygfa newydd



Mewn cyfarfod o'u pwyllgor cynllunio ar 21ain Mehefin rhoddodd Cyngor Gwynedd sêl bendith i'r cynlluniau i adeiladu canolfan iechyd newydd sbon yn Waunfawr. Bydd y Ganolfan Gofal Cychwynnol newydd yn gartref i Feddygfa Waunfawr a Llanrug, a byddant yn symud o'u cartref presennol yn Liverpool House pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau. Bydd y ganolfan yn gartref i wasanaethau cymunedol yn ogystal, ac fe fydd llefydd parcio ar gyfer 59 o geir. Dylai hyn hwyluso 'chydig ar y galw am lefydd parcio ger y feddygfa bresennol ym mhen arall y pentref ar hyn o bryd.

Caiff y ganolfan ei hadeiladu ar dir Fferm Cross, sydd ar ochr dde'r ffordd wrth i chi gyrraedd y pentref o gyfeiriad Caeathro, a gyferbyn â chanolfan Snowdonia Fire Protection.

Mae Siân Gwenllian AS wedi croesawu'r cyhoeddiad, gan ddweud ei fod yn newyddion da "ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu."

"Mae Meddygfa Waunfawr yn gwasanaethu ardal eang, ac mae'n bwysig bod gan y bobol leol gyfleusterau iechyd sy'n addas i'r 21ain ganrif. Rwyf wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella cyfleusterau iechyd ym mhentref Waunfawr ers cael fy ethol yn 2016."

Does yna ddim amserlen ar gyfer cychwyn na chwblhau'r gwaith wedi ei chyhoeddi eto, ond gobeithio na fydd yna oedi, fel ein bod fel trigolion lleol a'r staff meddygol, yn cael yr adnodd orau bosib y mae pawb yn ei haeddu.


ADVANCED VEHICLE WORKSHOP AVW
Which? Trusted trader
BOSCH Service
Car Service
For everything your car needs.
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol
www.AVWBosch.co.uk – 01286 673559
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD

# Ysgol Penisarwaun

**Cymru yn yr Ewros**
Bu disgyblion yr ysgol yn cefnogi Cymru yng nghystadleuaeth yr Ewros 2020 yn ddiweddar, buom yn canu ein hanthem genedlaethol gydag arddeliad cyn y gêm rhwng Cymru a Denmarc i geisio ysgogi ein tîm am nad oedd cefnogwyr Cymru yn cael mynychu'r gêm honno. Gallwch weld ein hymdrech ar safle BroWyddfa360 (https://browyddfa.360.cymru/) Da iawn Cymru a da iawn blantos!





**Taith gerdded**
Oherwydd cyfyngiadau yn sgil Covid-19 ni chafwyd trip diwedd tymor arferol eleni ond yn hytrach aeth disgyblion yr Adran Iau "am dro" yn ystod oriau'r ysgol. Cawsom fws i lawr at bont Penllyn ac yna llwyddodd pawb i gerdded i Lanberis hyd ochr y llyn, cael picnic ar y domen yn Llanberis cyn cerdded ar hyd y llwybr troed yr ochr draw i'r llyn i gyfeiriad Fachwen ac yna yn ôl i lawr i Bont Penllyn i ddal y bws yn ôl i'r ysgol. Cafwyd diwrnod pleserus iawn, a phawb wedi mwynhau'r daith, y cymdeithasu a'r awyr iach. Da iawn blantos am gerdded dros bum milltir!

Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael picnic ar gae'r ysgol cyn diwedd y tymor. Pob hwyl i bawb.



**Gwersi Nofio**
Yn ystod y mis aeth heibio cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 fynd am wersi nofio wythnosol. Dyma'r tro cyntaf ers tymor yr Hydref 2019 i'r disgyblion gael mynd i nofio. Diolch i Ganolfan Byw'n Iach Caernarfon am drefnu ac am roi'r cyfle i'r disgyblion gwblhau cymhwyster diogelwch yn y dŵr ac am y trefniadau diogelwch trylwyr a oedd yn eu lle. Llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus!

**Disgyblion Blwyddyn 6**




Mae'r amser wedi dod unwaith eto i ni ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt gamu ymlaen i'r bennod nesaf gyffrous a throsglwyddo i Ysgol Brynrefail. Mae unarddeg ohonynt eleni a phob un ohonynt wedi gweithio yn galed iawn yn ystod eu cyfnod yma yn Ysgol Penisarwaun. Hoffwn ddymuno pob llwyddiant, iechyd a hapusrwydd iddynt i'r dyfodol, rwy'n siwr y byddant oll yn setlo ym Mrynrefail yn fuan iawn. Braint a phleser oedd dysgu pob un ohonynt. Diolch am eich ymroddiad a'ch dyfalbarhad blantos, edrychwn ymlaen at glywed am eich llwyddiannau yn y dyfodol!

**Diwedd Tymor**
Bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r haf ddydd Gwener, 16eg Gorffennaf ac yn ail agor i ddisgyblion ddydd Gwener, 3ydd Medi. Ni fydd y dosbarth Meithrin yn cychwyn tan ddydd Llun 6ed Medi. Edrychwn ymlaen at groesawu pump o ddisgyblion newydd i'r Meithrin a thri disgybl arall i'r Adran Iau. Mwynhewch y gwyliau a chadwch yn saff a diolch i ddisgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach am eich cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn anodd iawn a aeth heibio!

## PENISARWAUN

**Genedigaeth**
Llongyferchir Heulwen a Deiniol o 12 Bryn Eglwys, ar ddod yn nain a thaid i Owi Deiniol, mab bychan Mari Deiniol, gor-ŵyr i Nain Nefyn a chefnder bach i Myfi ac Anni o Gaerdydd.

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

# Ysgol Brynrefail



**Beicio Mynydd**
Mae Huw Buck Jones, Blwyddyn 12 wedi ei ddewis i gynrychioli Prydain yn beicio mynydd ac wedi cystadlu yn y *Junior World Series* 2021 yn La Thuile, Gogledd yr Eidal. Mae'n beicio ers ei fod yn 7 oed.
Da iawn chdi Huw!

**Gweithgareddau ymgysylltu rhithiol gyda Colegiul Economic Ion Ghica, Rwmania**
Yn ôl yn 2019 cawson ymweliad gan athrawon a disgyblion Colegiul Economic Ion Ghica, Târgovişte, Rwmania. Roeddem i fod i deithio i'w gweld yn 2020 ond bu'n rhaid gohirio oherwydd Covid-19. Gyda Rwmania'n parhau ar restr felen y llywodraeth penderfynwyd mai cynnal gweithgareddau rhithiol fyddai orau.

O dan arweiniad Mr Iwan Barker-Jones yn Ysgol Brynrefail, a Carmen Rhidyllasoch ac Alexandra Nicoară yn Colegiul Economic Ion Ghica, cafodd disgyblion blwyddyn 12 wythnos fuddiol rhwng 14-18 Mehefin yn cydweithio gyda'r disgyblion o Rwmania, gan gwblhau cyfres o weithgareddau digidol a rhithiol ar '*Google Classroom*'. Ar ôl dod i adnabod y wlad, y ddinas a'r ysgol, llwyddwyd i greu Podlediad yn amlinellu gwahanol arfau digidol sy'n cael eu defnyddio yn yr unfed ganrif ar hugain, yn ogystal â bwrdd stori yn amlinellu peryglon yn y gofod seibr gan ddefnyddio '*Storyboardthat*'.

Ar y dydd Mercher cynhaliwyd cyfarfod byw dros Zoom ble cafwyd cyflwyniad ar Fframwaith Cymhwysedd Digidol yr Undeb Ewropeaidd, cyfle i gydweithio i lenwi Padlet a defnyddio '*MeetingWords*' i drafod dyfeisio App fyddai'n datrys problem sy'n wynebu pobl yn yr oes fodern. Cafodd rhai disgyblion y cyfle i gymryd rhan mewn holiadur oedd yn asesu eu cryfderau a'u gwendidau mewn cymhwysedd digidol er mwyn derbyn achrediad '*Badge List*'. Yn olaf defnyddiwyd '*Book Creator*' i greu llyfryn digidol yn amlinellu gweithgareddau'r wythnos. Gellir darllen mwy am y gweithgareddau ar y wefan yma: https://digitall-e.weebly.com/meeting-2.html a gellir gwylio fideo *YouTube* yma: https://youtu.be/fkT3wwxTM4I



Pwy a ŵyr, pan fydd cysgod y pandemig byd eang wedi codi, efallai y cawn deithio i Rwmania i gyfarfod ein cyfeillion newydd drachefn.

**Tridiau Sgiliau Mehefin 2021**
Bu'r ysgol yn llawn bwrlwm ddiwedd Mehefin gyda'r disgyblion yn cael cyfle i fwynhau'r awyr agored drwy wneud gwahanol weithgareddau. Cafodd pawb gyfle i gael hwyl ac ymlacio ychydig yng nghwmni ffrindiau ar ôl blwyddyn heriol ac anodd tu hwnt. Amrywiol oedd y tywydd yn anffodus ond rydym yn gobeithio fod pawb wedi cael newid o fod yn y dosbarth ac wynebu gwaith ysgol yn ddyddiol.

Bu Blwyddyn 7 ar daith gerdded o Benllyn i Lanberis ac yn ôl a threulio ychydig o amser yn yr Amgueddfa Lechi a Chastell Dolbadarn.



Cawsant gyflwyniadau difyr iawn am hanes yr ardal gan Gareth Roberts o Fenter Fachwen a chyflwyniadau am hollti a naddu gan chwarelwyr yn yr amgueddfa. Gweithgaredd arall oedd mynd ar eu beics o Gaernarfon i Fryncir ac yn ôl ar hyd Lôn Eifion. Dyma dipyn o daith i ddisgyblion Blwyddyn 7 - yn enwedig yn y glaw! Mae'n siŵr fod y plant yn genfigennus iawn o rai aelodau o staff a gafodd fenthyg y beiciau trydan newydd gan Beics Antur! Daeth staff yr Urdd yma hefyd i gynnal heriau adeiladu tîm a gwahanol chwaraeon fel bwa a saeth gyda'r disgyblion. Roedden nhw'n eu canmol i'r cymylau am fod mor barod i gymryd rhan ac am gydweithio cystal gyda'i gilydd.

Trefnwyd taith i gopa'r Aran i ddisgyblion Blwyddyn 8 sef taith o 8 milltir a oedd yn dechrau yn Nant Gwynant, dringo i gopa'r Aran ac yna lawr i Rydd Ddu. Dyma ardal hyfryd





iawn a dringfa anodd a serth i gopa'r Aran. Yn anffodus, gwlyb oedd y tywydd a ni chafodd pawb weld y golygfeydd gwych o'r Wyddfa a'i chriw oddi yno. Da iawn i bawb a lwyddodd i gyrraedd y copa a chwblhau'r daith. Bu'r disgyblion hefyd yn cyflawni gweithgareddau amrywiol dan y thema 'Diwrnod Iechyd' yn yr ysgol - roedd yna weithdy Cymorth Cyntaf, gweithdy iechyd meddwl a thasgau Dinasyddiaeth dan arweiniad myfyrwyr Blwyddyn 12. Er enghraifft, dysgodd y disgyblion fwy am siwgr cudd mewn bwydydd a sut i fwyta'n iach drwy wneud '*smoothies*' iachus. Tasg hwyliog arall oedd cwblhau cwrs antur llawn 'peryglon' wrth wisgo sbectols arbennig. Yn olaf, cafodd pawb gyfle i fynd ar daith ar hyd y Fenai ar gwch '*Queen of the Sea*' ac yna diwrnod llawn antur yn dringo yng nghanolfan *Ropeworks*, Llanberis. Digon i gadw pawb yn hapus a phrysur felly!

Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 gyfle i wella eu ffitrwydd drwy wneud Martial Arts, yoga, mabolgampau a gemau tîm hwyliog fel dodgeball. Corff iach, meddwl iach yn wir! Bu'r disgyblion hefyd ar daith gerdded o Nant Peris i fyny i'r chwarel ac yna'n ôl i'r ysgol - taith o 8 milltir i gyd. Roedd y tywydd yn braf i rai ond yn stido bwrw i eraill yn anffodus. Y gweithgaredd olaf oedd diwrnod dan arweiniad cwmni gweithgareddau dŵr *Boulder Adventure* sydd wedi ei leoli wrth ymyl Llyn Padarn. Cafodd y disgyblion gyfle i adeiladu rafft mewn timau ac yna caiacio mewn canŵ agored i ddau, neu ganŵ unigol. Does dim rhaid teithio ymhell yn yr ardal yma i gael profiadau gwerth chweil - rydym yn byw mewn ardal fendigedig.

Yn olaf bu disgyblion Blwyddyn 10 yn brysur iawn hefyd - cawsant ddiwrnod ar y traeth yn Llanddwyn. Roedd y tywydd yn siomedig i rai ond cafodd eraill chwarae gemau ar y traeth a mwynhau hufen iâ yn yr heulwen. Hen dro nad oes modd trefnu'r tywydd hefyd! Cawsant ddiwrnod arall yn cynllunio eu prosiectau



unigol Bac sydd angen ei gwblhau a'i gyflwyno ym Mlwyddyn 11 ac fe weithiodd pawb yn wych. Gweithgaredd arall oedd cael cyfle i wneud gwahanol chwaraeon dan arweiniad myfyrwyr sy'n astudio Addysg Gorfforol ym Mlwyddyn 12. Cawsant gyfle i chwarae tenis, criced, rownderi pêl-droed a llawer mwy.

**Gweithgareddau Awyr Agored gyda'r Urdd a TRAC**

Yn ystod yr hanner tymor, mae criw o ddisgyblion Blwyddyn 8 wedi mynychu cwrs o weithgareddau awyr agored dan arweiniad yr Urdd a'r gweithiwr TRAC.

Maent wedi cymryd rhan mewn nifer o sesiynau gan gynnwys sesiwn datrys problemau, sgiliau gwylltir grefft, dringo, cerdded afon a chanŵio. Mwynhaodd pawb y profiad yn fawr iawn.

**Canlyniadau Cystadleuaeth Sgïo Ysgolion Rhanbarthau Cymru 2021**

Ar ddiwedd Mehefin cynhaliwyd y gystadleuaeth hon ar y llethr sgïo yn Llandudno. Roedd 11 ysgol yn cystadlu a chriw da o Ysgol Brynrefail. Daeth tîm bechgyn Brynrefail yn 3ydd. Yr oedd gennym 4 tîm merched yn cystadlu a daethant yn 1af, 3ydd, 5ed a 7fed. Dyma'r unigolion a ddaeth i'r brig:

Molly Chisolm 1af, Megan Ingle 1af, Eirwen Howorth 1af, Hannah Brotheridge 1af, Seren Ellis 2ail, Cadi Owen 3ydd, Rufus Littlejohn 1af, Merlin Ingle 2il a Gruff Evans yn 1af. Trowch i dudalenau chwaraeon yng nghefn yr Eco i weld mwy o'r hanes.

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu ac yn cynrychioli'r ysgol.

**Y Prom**

Er gwaetha'r holl drafferthion sydd wedi codi oherwydd Covid-19 eleni, fe lwyddwyd i drefnu Prom arbennig iawn yn neuadd yr ysgol ar bnawn dydd Iau, 8fed Gorffennaf. Diolch i bennaeth Blwyddyn 11, Mr Nidian Huws, a'i waith trefnu gofalus fe gawson Brom gwerth chweil. Roedd y neuadd a'r byrddau wedi eu haddurno'n fendigedig a chwmni arlwyo lleol yn gyfrifol am y bwyd. Yn ychwanegol at hyn roedd Mr Huws wedi trefnu fideo arbennig iawn gan enwogion lleol a chenedlaethol yn dymuno'n dda i'r disgyblion wrth iddyn nhw ddod i ddiwedd eu taith yn yr ysgol. Roedd yr holl ddisgyblion yn edrych yn hynod o drwsiadus a 'glam' yn eu dillad ar gyfer yr achlysur arbennig. Cafwyd llawer o hwyl hefyd wrth gyflwyno gwobrau arbennig i'r disgyblion. Roedd yn gyfle arbennig i ni ffarwelio'n ffurfiol ac mewn ffordd ddymunol iawn hefo plant y flwyddyn. Mwynhaodd pawb yr achlysur a'r cyfle i ddathlu.

# TUDALEN YR IFANC

## Blwyddyn Gwernan a Nel

*Mae Gwernan a Nel wedi bod yn gwirfoddoli gydag Eco'r Wyddfa ers mis Medi, yn cyfrannu at Dudalen yr Ifanc ac ennill profiadau newydd. Dyma bwt am eu profiad:*



Rydym wedi bod yn ysgrifennu Tudalen yr Ifanc ers blwyddyn bellach a heb amheuaeth mae'r profiad wedi agor amryw o ddrysau i ni. Yn ogystal â hyn, mae wedi ein helpu gyda chymhwyster BAC ac wrth reswm mae'n werthfawr i'w osod ar ein CV. Nid yn unig mae'r profiad wedi ein helpu yn academaidd ond mae hefyd wedi datblygu ein sgiliau cwestiynu, holi a chyfathrebu.

Cynigiodd brofiadau newydd i ni o'r byd newyddiadurol gan agor ein llygaid at lwybr gyrfa posib i'w ddilyn yn y dyfodol. Yn sicr roedd gweld ein gwaith ar bapur print yn brofiad afreal ond yn ein llenwi â balchder hefyd.

Cawsom gyfle i sgwrsio gyda phobl ddiddorol o'n hardal leol. Roedd holi'r bobl ddylanwadol yma yn ein hysbrydoli ni yn fawr ac roedd yn deimlad gwych i roi llais i bobl ifanc llwyddiannus ein hardal. Uchafbwynt ysgrifennu i Dudalen yr Ifanc oedd cyfweld a sgwrsio gyda phobl na fyddwn ni'n gweld ar ddiwrnod arferol a chael clywed a lleisio eu storïau.


Wrth gyfrannu at Dudalen yr Ifanc rydych hefyd yn cyfrannu i'ch cymuned. Mae'r teimlad o wirfoddoli er lles y gymuned yn un positif gan eich bod yn rhoi rhywbeth yn ôl. Roedd ysgrifennu a rhannu straeon ar y dudalen yn rhoi boddhad i bobl yng nghanol y pandemig ac yn sicr roedd hyn yn deimlad calonogol.

Roedd yn chwa o awyr iach i gael bod yn rhan o awyrgylch gwaith gwahanol, a mwy aeddfed, ar ôl profi un awyrgylch gwaith ar hyd ein haddysg. Wrth ysgrifennu'r dudalen roedd gennym ni reolaeth a rhyddid i drafod testunau gwahanol.

Rydym yn argymell i unrhyw un sydd â diddordeb i fynd amdani a gwirfoddoli blwyddyn nesaf. Mae'n gyfle gwych i ddatblygu eich sgiliau ymhellach ac ennyn diddordeb yn yr ardal a phethau sy'n digwydd yn ehangach.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle a gawsom ni y flwyddyn yma a hoffem ddiolch i Marged Rhys am ein helpu drwy gydol y flwyddyn. 'Da ni'n falch ein bod wedi cymryd y cyfle ac wedi gwneud y mwyaf o'r profiad.

**Ydych chi yn 16 neu hŷn, ac eisiau profi cyfleoedd tebyg i Gwernan a Nel? Cysylltwch â ni!**

# Y Festri, Llanberis (Rhan 1)







Dyma'r gyntaf o ddwy erthygl sydd yn rhoi cyfle i chi ddarllen am hanes, cefndir a chyfansoddiad Y Festri gan weld beth oedd yn digwydd yno cyn dyfodiad Covid-19 a'r Cyfnod Clo.

**Dechrau**

Agorwyd drysau Y Festri, neu Theatr Fach Gorffwysfa gynt, ar 26ain Tachwedd 2016. A dweud y gwir, roedd yn ail lansiad o'r Elusen Cwmni Drama Llanberis a sefydlwyd yn 1986, felly eleni yw 5ed pen-blwydd yr ail lansiad a'r pymthegfed flynedd ar hugain o'r elusen! Cymrodd dair blynedd i drwsio'r adeilad a diweddaru'r polisïau, gan dderbyn cefnogaeth anferthol gan y gymuned. Cyfrannodd pobl o'u hamser i beintio, a chyfrannu plastr ac amrywiol ddeunyddiau, gan hyd yn oed ddod a chawl poeth a chacennau i'r gwirfoddolwyr tra roeddynt ar waith. Rhoddodd Cyngor Gwynedd eu grant cyntaf iddynt er mwyn rhoi system wresogi, goleuadau trydan a larymau tân newydd i mewn.

**Swyddogion**

Merlin Tomkins yw Cadeirydd yr elusen ac mae ei ddyletswyddau'n cynnwys sortio Twitter ac Instagram Y Festri, ysgrifennu polisïau a delio gyda llywodraethiant a threfnu cynnal a chadw'r adeilad. Thomasine Tomkins yw'r Trysorydd ac mae'n rhedeg y dosbarthiadau celf a syrcas i'r plant, ac yn cynnal gweithdai cymunedol a pherfformiadau, o dan ymbarél *CircoArts*. Mae'n rheoli *CircoPyro* yn ogystal â gwneud pob math o bethau eraill, megis delio efo'r cyfryngau cymdeithasol, glanhau'r toiledau a chreu cyfleoedd i bobl ifanc. Lowri Maxwell yw'r ysgrifennydd elusen ac mae'n cadw'n brysur gyda gwaith gweinyddol yn ogystal â'r swydd o Swyddog Dwyieithrwydd. Rôl Chris Williamson yw bod yn Gynrychiolydd Aelodau tra bod Adam Pearson yn gweithredu fel Cynrychiolydd yr Ymddiriedolwyr, Swyddog Amddiffyn, ac yn arwain ar Les. Ychwanegwch Greg Byatt i'r criw yma fel Is-gadeirydd - a dyma chi Bwyllgor Rheoli Y Festri!

**Celfyddydau Cymunedol**

Mae'n rhyfedd weithiau sut mae'r darnau'n disgyn i'w lle. Union yr un pryd ag yr oedd ymddiriedolwyr y Cwmni Drama yn ymddeol, cynigwyd cyfle i Thomasine gael yr adeilad, er mwyn parhau i greu celfyddydau cymunedol. Felly, dechreuodd hyrwyddo a datblygu celfyddydau cymunedol mewn ffordd oedd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hanes ynghyd â diwylliant Llanberis ar draws y cenedlaethau.

Bu Thomasine yn poeni am ddiffyg clybiau i blant o fewn y pentref ac am ddiffyg cyfleoedd oedd ar gael i blant gael ymwneud â chelf y tu allan i'r ysgol, yn enwedig gan fod darpariaeth celf yn cael ei dorri yn yr ysgolion ar yr un pryd. Gan fod tri o blant ifanc ganddi, roedd hi'n deall yn iawn beth oedd anghenion teuluoedd mewn ardaloedd gwledig ac ar yr un pryd yn awyddus i gadw costau'n isel, ac ynghyd â'i chefndir mewn addysgu anghenion arbennig, yn awyddus i roi mynediad hygyrch i'r celfyddydau.

Felly aeth grŵp o bobl leol ati i adfywio beth fu'n elusen gymunedol hynod fywiog. Yn y gorffennol drama oedd ffocws yr elusen ond cymrodd Y Festri hen gyfansoddiad y Cwmni Drama ac ehangu ystod y celfyddydau, gan gynnwys celfyddydau gweledol, perfformio a chelfyddyd ddigidol. Mae'r aelodaeth yn agored i bawb a bellach mae tua 40 o aelodau yn helpu i redeg yr adeilad, gwneud y gwaith gweinyddol a chyfryngau cymdeithasol. Gwaith gwirfoddol yw'r cyfan wrth gwrs.

**Cyllido**

Diwedd y gân yw'r geiniog, ac mae Y Festri wedi derbyn cyllid allanol gan nifer o sefydliadau. Bu Cyngor Cymuned Llanberis a Chanolfan Llanberis yn hynod gefnogol wrth i bethau ddechrau gan gynorthwyo'r Festri i godi ar eu traed. Darparodd Cyngor Gwynedd, Mantell Gwynedd, Hwb Eryri ac ambell i ymddiriedolaeth elusennol breifat, gronfeydd ariannol sylweddol i wella'r cyfleusterau ac adnewyddu'r adeilad. Fodd bynnag yn y dechrau a hyd heddiw, darparwyd llwyth o waith a deunyddiau gan bobl Llanberis, yn ogystal ag ymdrechion i godi arian trwy nosweithiau cerddorol a rafflau Nadolig. Cyfrannodd ystod eang o bobl gannoedd o oriau dros y saith mlynedd ddiwethaf i wneud Y Festri'n adnodd cymunedol hyfyw, bywiog a lliwgar i'r celfyddydau.

**Agor y drysau**

Cyn y Cyfnod Clo, byddai oddeutu dwy fil o ymwelwyr yn dod drwy'r drysau mewn blwyddyn. Wrth gwrs roedd nifer yn ail-ymweliadau, ond plant, pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc oedd y rhelyw. Pan mae'r Festri'n brysur, gall hyd at hanner cant o blant a phobl ifanc ymweld mewn wythnos gan ymuno mewn ystod eang o weithgareddau amrywiol - o glwb celf i sgiliau syrcas. Mae'r gweithgareddau amrywiol hyn yn hyrwyddo ysbryd cymunedol ac maent yn ceisio darparu gymaint o gyfleoedd heriol ag y bo modd. Cymrodd llawer o'r bobl ifanc ran yng nghynlluniau gwirfoddoli'r Festri er mwyn caffael profiad gwaith a sgiliau cymdeithasol gwerthfawr, gan ddefnyddio'r profiadau a sgiliau hynny yn uniongyrchol i symud ymlaen i addysg bellach. Rhoddwyd cefnogaeth i'r perfformwyr syrcas ieuenctid i gychwyn eu clwb eu hunain '*Staff Spinners*' - clwb sy'n cael ei redeg gan ieuenctid i ieuenctid. O'r fan honno ffurfiwyd Syrcas Dân CircoPyro a pherfformiodd y grŵp gyda *Walk the Plank* o flaen 15,000 o bobl.

O dan amgylchiadau 'normal' gallwch logi Y Festri, fodd bynnag bu'n rhaid cyfyngu ar bwy sy'n defnyddio'r neuadd yn ystod Covid-19 i sicrhau cydymffurfiad priodol gyda chyfyngiadau ac arweiniad ar iechyd cyhoeddus. Felly dros gyfnod cynhaliwyd dramâu, lansiadau llyfr, partïon pen-blwydd, dosbarthiadau dawns, yoga, gofod ymarfer, digwyddiadau lles a hyfforddiant syrcas celfyddydol.

Dewch yn ôl felly i ddarllen mwy am aelodau a dyfodol Y Festri yn rhifyn yr Hydref o'r Eco!



## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**

Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 9:30 y bore. Hefyd mae gwasanaeth bob bore Mawrth am 11 o'r gloch, ac yn dilyn y gwasanaeth bydd yr eglwys ar agor tan 4 o'r gloch ar gyfer ymweld, gweddi breifat neu dderbyn nwyddau i Fanc Bwyd Arfon.

**Margaret Tŷ Rhos yn 100 oed!**
Cafwyd amser bendigedig ar ddechrau Gorffennaf yn dathlu penblwydd Margaret Hughes, Bro Rhos gynt, yn 100 oed!

Fe gafodd y teulu gyfle i ddod at ei gilydd ar y pnawn Sul cyn ei phenblwydd i ddathlu'r achlysur arbennig ym Mhlas Pengwaith. Roedd y cartref wedi addurno'r ystafell yn fendigedig i ni gael mynd i mewn yn ein tro i weld Mam, Nain a Hen Nain arbennig iawn. Roedd Mam yn anhygoel drwy'r amser a phawb wedi rhyfeddu efo hi. Fel ddudodd Llion, ei ŵyr, "Nain, ti'n lejynd!".



Mae ein dyled ni fel teulu i staff Plas Pengwaith yn enfawr. Diolch o galon iddynt am eu gofal a'u cariad tuag at Mam a'r trigolion eraill. Mae Mam mor lwcus i fod yn aelod o'r teulu arbennig yma, felly diolch i Lorraine a'r tîm i gyd.

Cafwyd parti arall i ddathlu ar 6ed o Orffennaf, sef diwrnod ei phenblwydd yn 100 oed. Roedd hwn yn barti gyda'i theulu 'arall', sef 'teulu Plas Pengwaith'! Roedd staff y gegin wedi paratoi gwledd ar gyfer pawb, gyda chacen fendigedig. Dim gwell i'w gael mewn gwesty 5 seren!

Hoffai'r teulu, ar ran Mam, ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd. Pleser oedd darllen y geiriau caredig amdani. Er nad oedd rhai efo ni yn dathlu'r achlysur roeddynt



yn ein meddyliau a'n calonau. Wrth siarad a chofio amdanynt roeddem ni fel teulu yn teimlo eu bod yna efo ni.

Nain, chi ydi Cwîn teulu ni. Werth y byd yn grwn i gyd, a diolch am bopeth. Fasa ni ddim wedi gallu cael gwell Mam, Nain na Hen Nain.

Cariad mawr oddi wrth y teulu i gyd.

---

**Eglwys Sant Padarn**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 11 o'r gloch. Mae croeso hefyd i bawb ymuno â'r gwasanaethau Zoom a gynhelir bob nos Sul am 6 o'r gloch a bore Mercher am 10 o'r gloch. Cysylltwch a'r Parch Allan Wilcox ar afcwilcox@gmail.com er mwyn derbyn y cyfrinair.

Bydd yr eglwys ar agor bob dydd Mawrth rhwng 1 a 3 ar gyfer ymweld, gweddi breifat neu dderbyn nwyddau i Fanc Bwyd Arfon.

Hefyd, bydd caffi'r Eglwys ar agor ar ddyddiau Gwener a Sadwrn yn ystod gwyliau'r ysgol, dewch draw am baned, rhywbeth bach i fwyta a sgwrs.

**Capel Coch**
Cafwyd oedfaon yn y Capel bob pythefnos dan arweiniad y Gweinidog ers canol mis Mehefin. Bydd oedfa fore Sul, Gorffennaf 25 ac yna bydd toriad dros fis Awst cyn ail ddechrau ym mis Medi. Mae wedi bod yn braf gweld y gynulleidfa yn ôl, er ei bod yn amlwg bod amryw o'r aelodau yn naturiol dal yn bryderus o ddod ynghyd a heb fentro nôl i'r Capel. Gobeithio bydd pethau'n rhwyddach eto ym mis Medi.

Ers i ni ail agor y Capel mae Oedfa Gofalaeth Fro'r Llechen Las a gynhaliwyd dros Zoom ers blwyddyn wedi ei chynnal o un gapeli'r Ofalaeth. Ni fydd Oedfa'r Ofalaeth ym mis Awst. Bydd yn ail ddechrau ym mis Medi, er nad ydym yn gwbl sicr o'r union drefn ar hyn o bryd gan na wyddom beth fydd y sefyllfa o ran yr argyfwng iechyd erbyn hynny.

Bydd yr oedfaon Youtube ar sianel Capel Tanycoed yn parhau trwy fis Awst, a bydd modd gweld oedfa newydd bob bore Sul o 9.00 o'r gloch y borte ymlaen. Gellir gweld yr oedfaon hynny ar Youtube unrhyw bryd y mynnoch.

Mae'r Ysgol Sul trwy gyfrwng Zoom wedi dod i ben am yr haf, a diolchwn yn arbennig i Susan Williams am gynnal yr Ysgol Sul bob Sul ar gyfer plant Capel Coch a gweddill bro'r Eco trwy ei gwaith gyda Chynllun Efe. Byddwn yn rhoi gwybod i bawb ddechrau Medi beth fydd ein trefniadau o hynny ymlaen.

**Nodi Safleoedd Hanesyddol**
Yn ystod y mis a aeth heibio gosodwyd dau blac er mwyn cofnodi safleoedd capeli Nant Padarn a Gorffwysfa ar Stryd Fawr, Llanberis. Trefnwyd a thalwyd am y gwaith gan Y Ganolfan. Diolch o'r mwyaf i Mr Eric Baylis am osod y placiau a hefyd am ei holl waith diflino a gwirfoddol yn ein pentref.












**Dau lun Ysgol Brynrefail**
Derbyniwyd dau lun o'u cyfnod yn Ysgol Brynrefail ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf oddi wrth Liz Roberts, Bangor ac Eluned Jones, Mochdre. Lluniau o enillwyr Eisteddfod Flynyddol yr Ysgol yw'r ddau.



Llun o 1955 yw'r cyntaf a anfonwyd gan Liz, sy'n cofio pob un sydd ynddo ac eithrio dau:

Cefn, o'r chwith: ?, y diweddar Emlyn Sherrington, Liz, Betty Wyn, Margaret Morris, ?, Jean Davies, y diweddar John Tegla Williams.

Blaen, o'r chwith: Heulwen Hughes, Meira Williams, Georgina Hudson, Mair Wyn Jones, y ddiweddar Iona Griffith.

Mae Eluned yn tybio mai llun o 1957 yw'r ail, a anfonwyd ganddi hi.



Cefn, o'r chwith: y diweddar Charles Jones, Gwilym Roberts. Ail res, o'r chwith: Gwilym Wyn, Megan Thomas, Marcia Thomas, Eirwen Pugh, Eluned, Heulwen Hughes, y diweddar Bleddyn Roberts a'r ddiweddar Joyce Richardson.

Blaen, o'r chwith: Mair (Penisarwaun), y ddiweddar Meira Owen, Georgina Hudson, Rhiain, Sylvia a Mair Roberts.

Melys yr atgofion, meddai Eluned, am ddyddiau cyffrous mewn ysgol newydd sbon.

## BRYNREFAIL

**PROFEDIGAETH**

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â theulu Tros yr Afon yn eu profedigaeth o golli Gwyn Williams a fu farw yn ei gartref ar 15fed Mehefin yn 72 mlwydd oed – priod ffyddlon Dwynwen a thad Martin, Iestyn ac Ellen. Roedd Gwyn yn meddu ar bersonoliaeth hoffus ac annwyl iawn, yn hannu o Bwlch, Cwm-y-glo, yn fab i'r diweddar Idwal a Mair Williams ac yn frawd i Blodwen, Eirian a'r diweddar Meirion. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar 23ain Mehefin gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu.

Dymuna Dwynwen, Martin, Iestyn, Ellen a theulu Tros yr Afon ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli Gwyn. Diolch i'r Parchedig Marcus Robinson am ei wasanaeth arbennig, Nyrsus Cymunedol, Meddygfa Waunfawr a'r rhoddion caredig dderbyniwyd at Wasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru.

**YR EGLWYS BRESBYTERAIDD**

Er nodi yn y cofnod olaf yn yr Eco ddiwedd 2020 ein bod yn edrych yn obeithiol i'r flwyddyn 2021, 'rydym fel aelodau erbyn hyn wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'n sefyllfa fel Eglwys. Ymhlith yr ystyriaethau mae ffactorau fel y gostyngiad yn nifer yr aelodau a'u proffil oedran gan ystyried hefyd gynnwys Cynllun Strategol Henaduriaeth Arfon a'r gostyngiad yn nifer y Gweinidogion a phregethwyr fydd ar gael i'r dyfodol.

Fel un o bedair o eglwysi Gofalaeth Glannau'r Saint ac yn wyneb ymddeoliad ein Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson yn yr hydref, disgwylir y bydd pwyslais cynyddol ar batrymau amgen i ledaenu ein cenhadaeth yn y gymuned. Yn deillio o'r ystyriaethau hyn, argymhelliad y Swyddogion yw ein bod yn cyd-synio i ymuno â chynulleidfa Capel y Rhos, Llanrug yn unol â threfn y Cynllun Strategol.

Yn yr amser presennol, mewn oedfa dan arweiniad ein Gweinidog, byddwn fel cynulleidfa yn cyfarfod i drafod yr argymhelliad gan lunio 'Datganiad o Fwriad' a phleidlais i ddilyn i'w chyflwyno i sylw Henaduriaeth Arfon.

# Ysgol Gynradd Bethel

**Eisteddfod Bethel 2020-21**

Llongyfarchiadau i Tomos Pritchard Blwyddyn 6 am ennill cadair Eisteddfod Bethel 2020-21. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn yr ysgol a chafwyd seremoni cadeirio ar fuarth yr ysgol i anrhydeddu'r llenor haeddiannol. Mae fideo o'r seremoni ar Facebook Ysgol Bethel ac ar y Grŵp Facebook Bethel Ddoe a Heddiw. Dyma'r gerdd fuddugol.

**Fy hoff le**

Rwy'n eistedd yma yn fy hoff le.
Y lle heddychlon hwn.
Rydw i yn gallu clywed yr adar tlws yn canu
Ac arogli yr petalau prydferth.
A'r gwenyn yn casglu y paill i wneud mel.
Defnyddiodd y pobol y peiriannau mawr i dorri gwair
melys i'r gwartheg.
Cerddais i mewn i'r cae a'r gwartheg yn brefu.
Rwy'n teimlo y coed bras pan rydw'i yn fy hoff le.
Yn y gwanwyn mae'r wyn bach yn neidio a rhedeg ac
yn cael hwyl a sbri.
Pan 'dw i yn fy hoff le 'dw i yn teimlo yn saff ar ben fy hun.
Yr olygfa anghygoel o ynysoedd Gwylan a Tudwal.
Weithiau 'dw i yn dychryn yn clywed y sioncyn y gwair.
Y peth 'dw i yn gasau yn fy hoff le ydi'r
Gwybaid bach yn hofran o fy nghwmpas.
Rwy'n eistedd yma yn fy hoff le.








**Taith Blwyddyn 6 i Gopa'r Wyddfa**

Balch iawn yw dweud bod 17 o ddisgyblion blwyddyn 6 wedi herio eu hunain i'r eithaf drwy gerdded i gopa'r Wyddfa yn ddiweddar ar hyd Llwybr Pen Y Gwryd ac i lawr ar hyd Llwybr Llanberis. Da iawn chi blant.

# BETHEL A SEION

**Merched y Wawr**
Daeth tymor 2020-21 i ben gyda rhai o'r aelodau yn mynd ar daith gerdded leol cyn ymuno â gweddill yr aelodau am de prynhawn yng nghaffi Perthyn. Cafwyd gwledd ac orig ddifyr o sgwrsio. Diolchwyd i Elen a Nia, Caffi Perthyn am y croeso a'r te pnawn ardderchog.

Wrth ein croesawu nododd Anita, ein Llywydd, mor braf oedd cyfarfod wyneb yn wyneb wedi'r cyfnod hir o ymbellhau. Diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth i'r gangen drwy'r flwyddyn. Llongyfarchiadau i Rhianwen, wyres Anwylyd, ar ennill Ysgoloriaeth Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd yn astudio ar gyfer Doethuriaeth y flwyddyn nesaf. Llongyfarchiadau i Lois, merch Rhian, ar ei dyrchafiad diweddar i swydd Therapydd Iaith a Llefarydd Arbenigol gyda Thîm Neuroddatblygiadol Gogledd Cymru.

Danfonwyd cyfarchion penblwydd yn 80 oed i Glenys Griffith a chofion cynnes i Elizabeth Evans a phawb sy'n gwella o salwch neu wedi dioddef profedigaeth.


Diolchwyd i Liz Watkin am ddosbarthu'r 'Wawr', ac i Eleri am ei ddosbarthu i'n haelodau yng Nghaerhun.

Diolch Jen am roi gwybodaeth a lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol ac i Gwenan am drefnu'r cyfarfodydd Zoom. Diolchwyd i Eleri'r Trysorydd a Rhian yr Ysgrifennydd am eu gwaith drwy'r tymor.

Dymunodd Anita yn dda i Anne Elis, Liz Watkin a Gwyneth Jones (ein Swyddogion tymor nesaf) ynghyd ag aelodau'r pwyllgor.

Diolchodd Anne i Anita am ei harweiniad drwy gyfnod anodd a heriol ac i aelodau'r pwyllgor am gytuno i aros mewn swydd y tymor nesaf. Gobaith Anne oedd y byddwn yn cyfarfod eto ym mis Medi, os bydd canllawiau Covid-19 yn caniatáu.

Enillwyd gwobrau'r raffl gan Mary Evans, Gwenan, Mair Williams a Beti. Edrychwn ymlaen at weld pawb ym mis Medi.



**Ydych chi'n gasglwr?**
Wrth arddio (ia, wir) yn ddiweddar daeth y botel yma i'r golwg yn llawn o bridd. Wedi ei lanhau sylwyd fod y geiriau canlynol mewn priflythrennau ar y botel. STEPHENSONS BROTHERS a FURNITURE CREAM. O fynd ar y we darganfod mai cwmni enwog o Bradford, Swydd Efrog oedd y perchnogion. Cwmni yn ymwneud â gwella cyflwr dodrefn. Nodir hefyd mai mewn poteli pridd (earthenware) y gwerthwyd y cynnyrch yma hyd at 1910 cyn troi at boteli gwydr. Rydym ni wedi byw yma ers 1976 ac felly pryd tybed cyrhaeddodd y botel i'r hen Gae'r Ddôl? Oes unrhyw un ohonoch ddarllenwyr yn gyfarwydd â'r Cwmni neu'r cynnyrch? Os ydych yn casglu poteli mae croeso i chi gysylltu â mi i'w derbyn at eich casgliad.

**Y Capeli**
Ni fydd gwasanaethau yng nghapeli Saron na'r Cysegr yn ystod mis Awst.

**Y Tîm Hanfodol**
Hoffwn ddiolch i un o'r timau pwysicaf yn y pentref, sy'n siŵr o fynd yn ddisylw gan fwyafrif y boblogaeth. Dyma'r tîm sydd allan ym mhob tywydd unwaith yr wythnos yn casglu'r sbwriel sy'n cael ei daflu gan bobl leol nad oes ganddynt barch i finiau nac ardal. Diolch yn fawr i chwi ferched am eich cyfraniad gwerthfawr, Mary, Eleri, Falmai, Llinos, Liz, Sheila, Alice, Nia a Margaret. (Maddeued os gadewid enw rhywun allan).

**Hysbysebu**
Gwelais adroddiad yn ddiweddar bod galw aruthrol ar grefftwyr lleol yn adeiladwyr, trydanwyr, plymiwr, adeiladwyr waliau etc. Mae'n ymddangos fod nifer o bobl nad ydynt am fentro gwyliau eleni am wario eu harian ar ddatblygu eu tai. Mae digon o arwyddion o hyn yma ym Methel. Un effaith da yw fod y bobl hyn yn edrych i gyflogi gweithwyr. Braf meddwl hefyd bod y boblogaeth leol yn barod i droi at y cwmnïau lleol hyn. Yr un modd wrth gwrs i'r cwmnïau hysbysebu eu bodolaeth. Pam felly, gyfeillion y rhoddwch hysbyseb yn yr Eco? Mae'r telerau yn dderbyniol iawn.



**Pêl-droed**
Llongyfarchiadau i dîmau dan 9 a dan 11 Bethel ar ennill twrnamaint ym Mhenygroes yn ddiweddar. Roedd tîmau o Fangor, Ynys Môn a Manceinion ymysg y gwrthwynebwyr.



**Yfory?**
A chawn 'lôn' i feics, yn ei le, – un swel,
un syth, dyma gyfle.
Yn drwch â gerddwn i'r dre
heb eisiau gar neu'r bysie?

**Tyfiant**
Nid yn unig ym Methel mae cwynion am ddiffyg torri tyfiant. Gyda glaw a heulwen mae diffyg trin yn amlygu ei hun fwyfwy. Un cwyn cyffredinol hefyd yw diffyg casglu'r gwair wedi'r toriad sy'n hunan wrteithio wedyn. Mae hefyd yn gyfle i droseddwyr y 'baw ci' i guddio eu camweddau. Mae'n ymddangos fod cwmni Adra wedi trosglwyddo'r cytundeb trin tyfiant o gwmpas eu heiddo ym mhentrefi'r ardal i gwmni arall. Mae rhai pentrefi eisioes yn gweld dirywiad yn amseru a safon y gwasanaeth.

**Llenor Ifanc**
Llongyfarchiadau i Tomos Pritchard, Bl.6 ar gipio Tlws y Llenor eleni yn Ysgol Bethel, am stori ddenodd gryn ganmoliaeth gan y beirniad. I'w anrhydeddu cynhaliwyd seremoni dan arweiniad yr 'Archdderwydd' Dylan Parry. Gwefr mae'n siŵr i Tomos oedd cael ei gadeirio yn y gadair a gyflwynwyd i'r ysgol gan deulu'r Prifardd Selwyn Iolen.

# Ysgol Gynradd Llanrug



Disgyblion Blwyddyn 6 yn y gwersyll ger y llyn

**Ymweliad Bythgofiadwy Blwyddyn 6**
Cafodd holl ddisgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Gynradd Llanrug gyfle i ymweld â Gwersyll yr Urdd Glan Llyn cyn ffarwelio a throsglwyddo i Ysgol Brynrefail ym mis Medi. Roedd yn ddiwrnod bendigedig a chafodd y disgyblion amser gwych yn creu atgofion bythgofiadwy. Roedd golwg wedi blino ar bawb wrth iddynt ddod oddi ar y bws sy' bob amser yn arwydd o ddiwrnod da! Diolch o galon i'r disgyblion am fod yn blant gwych ac i Miss Tecwyn, Miss Lewis a Miss Jones am fynd â nhw. Mae fideo byr o'r ymweliad ar gael i wylio fel dolen YouTube ar Twitter@ YsgolGynLlanrug.

Bu nifer o blant blwyddyn 6 yn llwyddiannus ac yn derbyn tystysgrif lefel 1 a 2 sgiliau beicio yn ddiweddar.



Daeth Professor Llusern i ddiddannu'r Meithrin a chafwyd llond bol o chwerthin.



Neges bwysig a gafodd blynyddoedd 5 a 6 wrth wrando ar sioe Paid Cyffwrdd Dweud.



Cafwyd llawer o hwyl hefyd ar dripiau i Gypsy Wood yn ddiweddar. Mwynhaodd y plant y trip yn enwedig y trên a chael cyfarfod gyda'r anifeiliaid.



Cafwyd wythnos Mabolgampau gyda'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau. Gellir gweld fideo ar Twitter @ ysgolgynllanrug.




WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr wyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
23 BLWYDDYN O BROFIAD
Cwôt di-dal
Ffôn - 01286 677668
Symudol - 07940023159
Gladwyn, Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
LL55 4AG
Ebost - lisa.huw@btinternet.com

## LLANRUG

**Babis Newydd**

Llongyfarchiadau mawr i Sue a Dave Owen, Bryn Moelyn, am ddod yn daid a nain i ferch fach newydd i Sophie a Tom a chwaer annwyl i Ava.

Yn yr un modd, llongyfarchiadau i Kevin a Jamie Lloyd, 8 Glanmoelyn, ar enedigaeth eu mab bach, Noah John Lloyd. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Dymuniadau da**

Anfonwn ein cofion a dymuniadau gorau am wellhad buan at Rhydwen Pugh, Glanffynnon, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd, Maureen Pierce, Bryn Moelyn, sydd wedi derbyn llawdriniaeth mewn ysbyty yn Wrecsam.

Brysiwch wella eich dwy, a dymunwn yn dda i bawb sydd ddim yn dda hefyd.

**Diolchiadau**

Dymuna Eilwen Charters, gynt o Hafan Elan, ddiolch i bawb am eu dymuniadau gorau ar ei hymadawiad o Lanrug i Gaergybi yn ddiweddar.

**Capel y Rhos**

Ni chynhelir gwasanaethau yn ystod mis Awst. Bydd yr oedfaon yn ail ddechrau ar 5ed Medi gyda gwasanaeth a chymun dan ofal y gweinidog, y Parch. Marcus W Robinson. Dymuniadau gorau i chwi dros yr haf yn aelodau a chyfeillion.

**Eglwys St Mihangel yn yr Institwt**

Mae pob gwasanaeth yn dechrau am 10.00 AM.
1af Awst - Gweddi Foreol.
15ed Awst - Cymun Bendigaid.
5ed Medi - Eglwys y Caffi.
Croeso cynnes i blant, pobl ieuainc a phobl ieuainc eu calon.

**Merched y Wawr**

Yn dilyn pwyllgor o swyddogion y gangen i edrych ar y gobaith o drefnu rhaglen am y flwyddyn i ddod, gobeithir cychwyn gyda'r cyfarfod cyntaf ym mis Medi yng Nghapel y Rhos. Croeso mawr i bawb yn cynnwys aelodau newydd.

Tâl aelodaeth fydd £15. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Bethanne Williams ar 673485, Nan Humphreys ar 675668 neu Eryl Roberts ar 675384. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus eto.

Tra'n edrych ymlaen at flwyddyn newydd o weithgareddau, dyma hel atgofion am weithgareddau'r misoedd diwethaf hefyd -

Gan ddilyn rheolau ymbellhau cymdeithasol, estynwyd groeso cynnes i aelodau'r gangen i ymgynnull am sgwrs yng ngardd hyfryd Nan, Llywydd y Gangen a hynny ar fore heulog ar Fawrth 12fed ac yna ar fore'r 8fed Mehefin am 10.30yb.

Dymunwyd adferiad iechyd buan i nifer o'n haelodau ac anfonwn ein cofion cynhesaf at Menna a Megan wedi triniaeth yn yr ysbyty ac anfonir ein cofion at Iris. Cydymdeimlwyd yn ddwys â rhai aelodau yn eu profedigaeth o golli anwyliaid ar adeg mor heriol a phryderus. Anfonir ein cydymdeimlad dyfnaf at Gwenno ac Einir yn eu profedigaeth lem o golli Helen Parry, Morwel, Ceunant, mam, mam yng nghyfraith a nain hoffus ac aelod hoff o'r gangen. Llongyferchir Eirian a Brian ar ddod yn nain a thaid i Guto Rhys.

Dymunir diolch o galon i Bethanne, ein Hysgrifenyddes am gadw cysylltiad cyson â nifer ohonom ar y we ac ar Zoom.

Er gwaethaf y pandemig bu misoedd o fwrlwm yn Rhanbarthol a Chenedlaethol. Llongyferchir Meirwen, Llywydd Cenedlaethol y Mudiad ar ei herthyglau manwl a difyr yn fisol yn y Cymro. Dosbarthwyd rhifyn 211 o'r Wawr i bawb, a diolchir i Olwen a'r rhai fu'n cynorthwyo er mwyn i bob aelod yn ein cangen ei dderbyn yn ddiogel.

Ar 8fed Mawrth, ar Zoom am 10.30yb cafwyd bore 'paned a chlonc' am y tro cyntaf, a phawb oedd yn gallu wedi mwynhau'r profiad ac yn eiddgar i gyfarfod eto ym mis Ebrill.

Yn rhanbarthol ym mis Ebrill, bu sialens o geisio cerdded miliwn o gamau, er mwyn 'Curo'r Corona Camu' - fu'n llesol i'r iechyd yn gorfforol ac yn feddyliol. Llwyddodd 12 aelod o Gangen Llanrug i gerdded 2,865,826 o gamau! Yn genedlaethol llwyddwyd i gamu 145,144,798. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Ym mis Mai, trefnwyd Cwrs 6 wythnos Technoleg Gwybodaeth gydag Emma Williams a Deian ap Rhisiart i gefnogi sgiliau digidol ac i helpu adeiladu hyder yr aelodau wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Ar Sadwrn 8fed Mai cynhaliwyd Gŵyl Rithiol Ranbarthol dros Zoom, ac roedd Sadwrn 1af Mai 'Siarad Mwya'r Byd' hefyd yn hynod ddiddorol.

Yn ystod 4ydd-8fed Mehefin derbyniwyd wahoddiad i aelodau Merched y Wawr i fynd i'r Galeri fel Cynulleidfa i'r Noson lawen. Dymunir ddiolch i Olwen Meredydd a Rhys am y croeso hwyliog a'r eitemau clodwiw.

Diolchir i Bethanne am agor ei gardd fendigedig o 1am - 4pm ar yr ail ddydd Mawrth o Orffennaf - cyfle i weld ein gilydd a chael clonc a mwynhau orig ddifyr.

Llongyferchir Heulwen a Deiniol ar ddod yn nain a thaid i Owi Deiniol, mab bychan Mari Deiniol a Gwyn.

Bu 'Llaw Meirwen ar y Llyw', fel Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr o'r radd flaenaf a bu'n ymroi'n llwyr i'r mudiad, a hynny ar adeg mor heriol, gan grwydro o fan i fan ar draws Cymru benbaladr. Rydym fel aelodau o Gangen Llanrug yn hynod falch o'th lwyddiant ysgubol gan gyflawni, hyd gorau dy allu, yn ystod y ddwy flynedd fel Is-lywydd a thair blynedd fel Llywydd rhwng Awst 2016 - Awst 2021. Cyflwynwyd tusw hyfryd o flodau i Meirwen fel cydnabyddiaeth o'i gwaith diflino.

Yn rhifyn 'Y Wawr' - Haf 2021 cyhoeddwyd pennill iddi gan ei ffrind, Manon Rhys, a ysgrifennwyd adeg Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 2018. Dyma'r pennill:

Seren y Wawr
Waw! Mae hwn yn fudiad hirben
Wedi chwilio drwy'r ffurfafen
dod o hyd i fflach o seren!
Llongyfarchion i ti Meirwen.

Ar noson swper a drefnwyd i Meirwen gan Mary Roberts, Llywydd a Chyd-Swyddogion Rhanbarth Arfon, yng Ngwesty'r Celt Caernarfon, cyflwynodd Bethanne, ar ran cyd-aelodau Cangen Llanrug, englyn gan Dafydd Whiteside Thomas ac wedi ei bwytho gan ei wraig Eirianwen, sy'n aelod o'r gangen:

Ein Llywydd: yma i'n llywio - yn ben
Bid yn bont i'n cario
Ein braint cael Meirwen o'n Bro
Hwyl iddi - siŵr o lwyddo.

Diolch i ti Meirwen, braint ac anrhydedd enfawr fu'r cyfnod hwn i ti, i ni a Chymru gyfan.

**Plaid Cymru**

Enillwyr Clwb Cant Gorffennaf
1 - Deiniol Evans, Penisarwaun
2 - Rolant Wynne, Llanrug


Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
*Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser*
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 74618

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

SPAR
Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

# Ysgol Gwaun Gynfi

**Wythnos Iechyd a Lles**
Wythnos llawn hwyl, a'r ysgol gyfan yn derbyn sawl gweithgaredd gwahanol drwy'r wythnos.





**Diwrnod hwyl**
Bu'r ysgol gyfan yn rhan o ddiwrnod llawn hwyl.
Diolch i Anti Sandra a'r criw am baratoi cinio blasus i gyd-fynd â'r diwrnod.



**Gwellad buan**
Hoffwn ddymuno gwellhad buan i Anti Sandra yn dilyn derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Traed fyny am dipyn rŵan ac edrychwn ymlaen at eich gweld mis Medi.

**Gweithgareddau chwaraeon a blasu**
Cawsom ddysgu sgiliau sgwter gyda Sustrans Cymru, a dysgu mwy gan Athletau Cymru.











**Croesawu'r anifeiliaid newydd**
Ydach chi'n cofio ni'n sôn mis diwethaf y byddwn yn mynd ati i brynu anifeiliaid newydd i'r ysgol?





**Ffarwelio**
Hoffwn ddymuno'r gorau i Mrs Jackie Warrington yn ei swydd newydd fel athrawes blynyddoedd cynnar o fewn cylchoedd meithrin, Ynys Môn. Mi fydd hi'n drist iawn ffarwelio, wedi blynyddoedd o weithio fel athrawes y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gwaun Gynfi. Diolch yn fawr iawn am yr holl waith caled a phob dymuniad da oddi wrth y plant a'r staff.



**Garddwyr y dyfodol!**
Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn plannu ac yn hau. Edrychwch pa mor llwyddiannus mae'r planhigion yn tyfu? Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen at Anti Sandra wneud cawl blasus gyda'r cynhwysion.
Da ni'n gobeithio y bydd ein garddwyr yn ehangu'r ardd ac yn cael mwy o lysiau a ffrwythau yn y dyfodol.



## DINORWIG

**Chwaraeon**
Mae'r wythnosau diweddar wedi hedfan, a rhaid beio'r cyfan ar wylio'r chwaraeon ar y teledu! Rhaid cyfaddef i mi fod yn gaeth i wylio'r bêl-droed, a mwynhau'r cyfan. Gresyn i Gymru golli, ond er hynny cafwyd perfformiadau da, yn enwedig yn eu hail gêm. Mae'n dda gweld fod cymaint o chwaraewyr ifanc yn y garfan hefyd: argoeli'n dda am y dyfodol. I mi, y tîm gorau yn y gystadleuaeth oedd yr Eidal. Byddwn yn gwybod os mai nhw fydd y pencampwyr cyn i'r Eco hwn ddod o'r wasg.

Edrychaf ymlaen hefyd am y gêmau rygbi. Gresyn fod Alun Wyn a Leigh Halfpenny wedi eu hanafu. Gobeithio y caiff y ddau wellhad o'u hanafiadau ac y gwelwn hwy yn chwarae dros Gymru unwaith eto.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn fawr iawn â theulu Mr a Mrs Alwyn Jones, 5 Bro Elidir. Bu farw brawd-yng-nghyfraith Alwyn yn frawychus o sydyn yng Nghaernarfon yn 69 oed. Gobeithio y caiff y teulu nerth yn ystod y dyddiau tywyll hyn.

**Agor Capeli**
Mae llawer o'r eglwysi a'r capeli wedi ail-agor erbyn hyn. Rydym ni yn Neiniolen yn dal i obeithio y cawn weld y Sul yn Sul unwaith yn rhagor fel y gallwn gyd-addoli. Mae'n amser maith ers i ni yn yr ardal hon gael cyd-addoli â'n gilydd. Ond cadwn y Ffydd, a diolch i Dduw am ein cynnal yn ystod yr amser poenus hwn.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion fel ardal tuag at bawb sydd mewn gwendid yn eu cartrefi neu oddi cartref, gan fawr obeithio y daw haul yr haf a rhywfaint o gysur i chwi. Brysiwch wella i gyd.

## DEINIOLEN

**Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen**
Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau y pentref am roddion ariannol o'r gronfa uchod. Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn yr archwilydd. Yn ogystal, dylir nodi nifer aelodau'r mudiad neu oddeutu'r nifer fyddai yn elwa o rodd ariannol yn ogystal â nodi os ydyw ar gyfer gweithgaredd neu ar gyfer prynu unrhyw eitem benodol. Dylid anfon ceisiadau at yr ysgrifennydd - Glyn Gruffudd, 3 Hafod, Clwt y Bont, LL55 3DG. Dyddiad cau yw Gorffennaf 31 2021.

**Diolchiadau**
Dymuna Hefina, Valmai, Alwyn a theulu y diweddar Aled Foulk Jones, Ysgoldy Cottage, ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl yn 91 mlwydd oed. Diolch am y rhoddion tuag at nyrsus cymunedol Llanberis a Waunfawr am eu gwaith di-flino, hefyd Ysbyty Gwynedd, cymorth cartref a'r cymdogion. Diolch hefyd i'r Parch Marcus Robinson a Meinir o Ymgymerwyr Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaun am eu trefniadau trylwyr a pharchus.

Dymuna Margaret, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati ar achlysur ei phenblwydd yn 80ain oed. Diolch o galon i bawb.

**Cynghorydd Elfed Williams**
Yn ddiweddar, cefais gyfarfod gyda Siân Gwenllian, Aelod o'r Senedd dros Arfon am nifer o faterion sy'n effeithio ardal Deiniolen. Dyma'r prif bynciau trafod:

Diogelwch o flaen Ysgol Gwaun Gynfi - Mae llythyr wedi mynd at Gyngor Gwynedd i geisio cael atebion i'r problemau yma.

Dyfodol Cae Bwthyn a'r stafelloedd newid - Wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i geisio sicrhau bod y cae a'r stafelloedd newid yn cael eu gwarchod am y blynyddoedd sydd i ddod.

Parcio - Nifer o etholwyr wedi ysgrifennu ataf yn pryderu am ddiffyg parcio yn ardal Tai Caradog a Rhydfadog.

Daeth Siân Gwenllian a Hywel Williams i fyny i'r pentre hefyd am ymweliad, ac fe wnaethom guro drysau yn stad Bro Elidir, Dinorwig ac ymweld a'r Hen Ysgol.



Cyflwr y lôn ar Allt Sam, Clwt y Bont -
Mae nifer o bobl wedi bod yn cysylltu yn pryderu am gyflwr y lôn yng Nghlwt-y-Bont. Mae hon yn lôn sy'n hanfodol i drigolion lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus, felly roedd hi'n bwysig iawn i waith gael ei wneud arno cyn gynted â phosib, gan bod y problemau yno ers rhai misoedd bellach.

Ar ôl brwydro'n hir gyda Chyngor Gwynedd, a phwysau gan Siân Gwenllian, rwy'n falch o ddweud bod y Cyngor wedi gwrando ar bryderon lleol ac yn gweithredu. Byddaf yn monitro'r sefyllfa yn y misoedd nesaf ac yn sicrhau ein bod yn mynd at wraidd y broblem unwaith fydd y gwaith wedi'i gwblhau ar y safle cyfagos sydd wedi achosi'r problemau. Deallir nad ydi'r gwaith yn be oedd pawb yn ddymuno ei weld ag nad yw yn ddelfrydol, ond mi fyddai'n parhau i frwydro er mwyn cael ail-wynebu'r ffordd i gyd.

Cysylltwch gyda unrhyw ymholiadau – cynghorydd. elfedwynwilliams@gwynedd.llyw.cymru



Siân Gwenllian AS, Y Cyng. Catrin Wager (Aelod yn gyfrifol am Briffyrdd, Cyngor Gwynedd) gyda'r Cyng. lleol Elfed Williams



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com
Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

# WAUNFAWR




**Addurno ar gyfer yr Ewros**
Mae wedi bod yn wych gweld cymaint o faneri'r Ddraig Goch ar hyd y pentref yn cael eu chwifio i ddangos cefnogaeth i dîm pel-droed Cymru yng nghystadleuaeth yr Ewros. Roedd un yn arbennig yn denu sylw, sef yr un anferthol tu allan i dŷ Elgan a Mared Rhys efo enw'r pentref arni – biti garw bod ein cyfnod yn y gystadleuaeth wedi dod i ben yn rhy gynnar.

**Genedigaethau**
Braf iawn yw cael croesawu pedwar plentyn bach newydd sbon i'r Waun mis yma! Ganwyd Kitty Carole Mitchell i Nia a Geraint, Fach Goch, gyda Marian, Tai Eilian yn dod yn nain am yr ail waith mewn 'chydig o fisoedd. Hefyd, cyrhaeddodd Harri Twm, mab bach newydd i Cae Glas, mab arall i Rhys a Nia a brawd bach i Jac a Maia. Daeth Geraint a Iona, Gadda yn rieni eto, i Annell Emlyn, chwaer fach i Eila, ac wyres arall i Nan Roberts. Ganed mab cyntaf i Marc a Beca, 5 Stad Glynafon, sef Ned Owen, wyr i Janet a Peter Greasley, gor ŵyr i Mr a Mrs Greasley a Mrs Grace Dawson. Croeso cynnes i chi i gyd, a hwyl fawr i bawb ar y magu.

Llongyfarchiadau hefyd i Nia a Charlie, Stâd Tref Eilian ar ddod yn daid a nain i wyres fach, Loti Non, merch fach i Dion ac Angela. Maent yn byw yng Nghaernarfon.

**Diolchiadau**
Hoffai Gavin ac Amy, Cam Cyntaf, ddiolch o galon i bawb am y cyfarchion, cardiau ac anrhegion ar achlysur geni eu mab Freddie John.

**Codi arian at elusen Latch**
Nôl yn 2016 pan oedd Cymru gyfan yn dathlu llwyddiannau ein tîm pel-droed yn yr Ewros yn Ffrainc roedd Macsen, mab blwydd oed Bethan Wyn, Y Frenni gynt, yn dechrau ar driniaeth ddwys iawn am ei fod yn dioddef o'r lewcimia. Dair blynedd galed yn ddiweddarach, cafodd ganu'r gloch i ddynodi fod y driniaeth wedi bod yn llwyddiannus. Cafodd o, ei rieni a'i frawd gefnogaeth fawr gan deulu, ffrindiau ac hefyd gan elusen Latch. Mae'r elusen yma yn cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i deuluoedd plant sy'n dioddef o gancr.

I ddangos eu ddiolchgarwch ac i gefnogi yr elusen i helpu teuluoedd eraill, mae Ian, tad Macsen yn bwriadu rhedeg o Gaernarfon i Gaerdydd rhwng 24ain – 30ain Gorffennaf. Golyga hyn redeg marathon y diwrnod am 7 diwrnod.

Mae'n bosib noddi ymdrech Ian drwy'r wefan justgiving.com/fundraising/ianspeakman7in7

Pob lwc i ti Ian!



**Priodas**
Yn ystod mis Mehefin priododd Huw Griffith, Trefeddyg, â Megi Williams o Aberdaron. Roedd y briodas ei hun yn cael ei chynnal yn Penarth Fawr, Chwilog, a'r wledd mewn marcî tu ôl i gartref Megi yn Aberdaron – lle gwell ! Dymuniadau gorau i chi'ch dau.

**Hen hanes y Waun**
Gyda chynifer ohonom wedi symud i fyw i'r pentref, difyr dros ben ydi dysgu mwy am sut le oedd y pentref ers talwm ac am y cymeriadau oedd yn byw yma. Diolch am bobl fel Gwilym Morris Jones (Mois) sydd yn cofnodi cymaint o'i wybodaeth am y pentref ac yn fodlon ei rannu gyda ni – dyma un stori ddaeth i law yn ddiweddar – am 'Mari Llathan Bupur'.

'Hen wreigen go ryfedd yn byw yn y Waun ym mlynyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf, oedd un a'i hadwaenid yn lleol fel,'Mari Llathan Bupur'. Rhyw greadures ddigon anfoesgar oedd 'rhen Fari, yn nodedig am ei hatebion cwta a sarrug. 'Chdi' ddywedai wrth bawb, byth 'chi'.

Cadw siop fechan ym mharlwr y tŷ ger Allt y Bont fyddai Mari, yn gwerthu mân bethau fel botymau, edafedd, nodwyddau â phinnau, ynghyd â dail tê, siwgr, pupur a halen ac ati. Y drefn bryd hynny fyddai pwyso owns neu ddwy o'r pupur neu'r halen ar glorian fechan ar y cownter a'i roi mewn bag papur i'r prynwr fynd adre. Un diwrnod aeth dynes go grand a gwraig i flaenor uchel ei barch yn yr ardal i'r siop i brynu bagiaid o bupur. 'Rhen Fari'n gofyn "Faint o bupur wt'i angan dwad"? Y wraig yn ateb yn gwrtais gan ofyn faint o bupur fyddai'n iawn iddi gael. Atebodd Mari hi fel matsien yn bigog "Wel cei lathan os mynni di". A dyna sut cafodd Mari ei henw.

Croeso i unrhyw un anfon mwy o hanesion i mi - manylion ar dudalen 2.

**Capel y Waun**
Neges gan y Parch. Anna Jane Fore Sul, 25 Gorffennaf am 10 o'r gloch byddwn yn cynnal ein gwasanaeth cyntaf yng Nghapel y Waun ers cyn y Cyfnod Clo - mae croeso i chi ymuno gyda ni i ddathlu bod yn ôl!! - Byddai'n help petaech yn rhoi gwybod i un o'r blaenoriaid ymlaen llaw os ydych am ddod, er mwyn i ni gyflawni gofynion y Track&Trace. Er ei bod yn debygol y bydd y cyfyngiadau wedi llacio rhywfaint erbyn hynny, byddwn yn parhau i gadw pellter 2 fetr ac yn gofyn i bawb wisgo masg a chadw at y canllawiau o olchi dwylo ac ati - er mwyn cadw pawb yn ddiogel. Bydd yr oedfa ar gael ar Zoom/ffôn hefyd i'r rhai hynny nad ydynt yn gallu dod i'r adeilad.

Yn ôl yr arfer, ni fydd gwasanaethau yn cael eu cynnal yn ystod mis Awst.

Mae croeso i aelodau a chyfeillion Eglwys y Waun ymuno efo Seilo a Salem Caernarfon yn ystod mis Awst; cymysgedd o wasanaethau yn y naill gapel a'r llall a'r rhain hefyd ar gael ar Zoom. Dyma'r drefn ac mae croeso i unrhyw un gysylltu efo capelywaun@gmail.com i dderbyn y linc cywir o Sul i Sul. Byddai'n hyfryd iawn cael eich cwmni.

1af Awst - Ron Williams, Capel Salem, Caernarfon
8fed Awst - Mererid Mair, Capel Salem, Caernarfon
15fed Awst - (am 10.30 o'r gloch) – Parch. Huw Powell Davies, Eglwys Bethesda'r Wyddgrug
22ain Awst – Parch. Marcus Robinson, Capel Seilo, Caernarfon
29ain Awst – oedfa Zoom yn unig dan arweiniad Parch Robert Parry

**Dymuniadau da**
Dymunwn y gorau i Dafydd Thomas (Treforfan gynt) sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd – rydym i gyd yn meddwl amdanat ac yn anfon ein dymuniadau gorau atat Dafydd.

# Ysgol Waunfawr

**Genedigaethau**
Mae'n bleser gallu cyhoeddi fod Mrs Sioned Jones a Mrs Hannah Williams wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar. Dymunwn y gorau iddynt a'u teuluoedd a gobeithio cyfarfod y ddau fach newydd yn fuan.

**Diolchiadau**
Hoffwn ddiolch i Anti Tesni am ei gwaith yn yr ysgol yn ddiweddar a dymunwn bob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Diolch yn fawr iawn i Mr Huw Ynyr a Mrs Siân Angharad Owen am eu gwasanaeth ar Gorff Llywodraethol yr ysgol ers sawl blwyddyn bellach. Bydd yr ysgol yn sicr yn colli eu presenoldeb a dymunwn y gorau iddynt i'r dyfodol.

**Poster Diogelwch Beicio**
Llongyfarchiadau i Ceiri Tuff ar ennill cystadleuaeth hyrwyddo diogelwch beicio yn ddiweddar. Bydd yn ennill gwerth £100 o dalebau siop Evolution Bikes.

**Wythnos Awyr Agored**
Bu nifer o weithgareddau er mwyn datblygu iechyd, lles a ffitrwydd y disgyblion yn yr awyr agored yn ddiweddar. Cafodd Blwyddyn 5/6 daith arbennig i Glan Llyn a bu sawl taith gerdded arbennig yn yr awyr agored. Diolch i Stephen Jones o gwmni Anelu am ein harwain ac i bawb a fu'n cynorthwyo gwneud yr wythnos yn llwyddiant.

Yn ogystal, cafwyd sesiynau rygbi, karate, Yr Urdd a llawer iawn mwy.





**Gwellhad Buan**
Dymuna holl staff yr ysgol wellhad buan iawn i Anti Nia.

**Blwyddyn 6**
Dymunwn y gorau i holl ddisgyblion blwyddyn 6 ar eu taith i'r cyfnod nesaf yn eu bywydau sef yr Ysgol Uwchradd - gwnewch eich gorau blantos. 'Rydym yn falch iawn ohonoch i gyd.

Diolch hefyd i staff yr ysgol am eu gwaith caled eleni, ac am gefnogaeth y rhieni a'r Corff Llywodraethol yn ystod blwyddyn heriol iawn.

Gwyliau Haf hapus i bawb.



**Pêl-droed**
Diolch i Gethin o glwb pêl-droed Bala am y sesiynau i'r disgyblion eleni. Mae pawb wedi mwynhau'r sesiynau yn fawr ac wedi cael tystysgrif ymdrech ar ddiwedd y flwyddyn. Bu'r disgyblion yn dilyn cystadleuaeth yr Ewros yn frwd a llwyddodd pob dosbarth i ychwanegu'r anthem i wefan y Wal Goch. Dyma lun un disgybl a gafodd fodd i fyw yn llunio baner pob gwlad!








**Mabolgampau**
Tîm buddugol ein Mabolgampau eleni oedd Gwyrfai.

Y bachgen lwyddodd i ennill y nifer mwyaf o bwyntiau oedd Ceiri Tuff a'r eneth gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau oedd Abi Kay.



# Brodorion Bro'r Eco ar Draws y Byd



'Township' yn Johannesburg



Mae llawer o'n pobl ifanc wedi gadael y fro, mynd i'r coleg neu'r brifysgol neu fynd i weithio i rywle arall, er mwyn gwneud bywoliaeth. Weithiau mi ddown nhw'n ôl a magu teulu yma, weithiau ddown nhw'n ôl am wyliau neu i weld y teulu sy'n dal yn yr ardal. Weithiau maen nhw'n aros mewn ardal arall o wledydd Prydain, ond weithiau maent yn ymestyn eu hadenydd ymhellach ac yn hedfan i wledydd a chyfandiroedd eraill. Bwriad yr erthygl hon (a gobeithio rhai eraill i ddod) yw dilyn hynt a helynt rhai o'r fro hyfryd hon sydd bellach yn byw ymhell ond a'u calonnau dal yng Nghymru fach.

Er mwyn dechrau'r gyfres, gan obeithio annog rhai eraill i gysylltu, dechreuais wrth fy nhraed (mwy neu lai) drwy holi **Rhys Owain**, Bwlch Cae Mawr, Deiniolen (gynt), mab Tony a fy llysfab i. Gobeithio cewch chi flas ar ei hanes a'i helyntion o.

**Gadael Cymru**

Wnes i adael Cymru yn wreiddiol nôl yn 1998 pan wnes i symud i bentref bach o'r enw Aspley Guise y tu allan i Milton Keynes. Dyma ddechrau fy ngyrfa tu allan i Gymru, yn gweithio mewn gwestai, sydd wedi cario 'mlaen am 23 mlynedd ac wedi fy nghario i i fyw mewn 4 gwlad dramor.


Wnes i aros yn Aspley Guise am dros dair blynedd, cyn symud i bentref bach arall o'r enw Copthorne yn West Sussex lle wnes i ymuno am y tro cyntaf â Chwmni Gwestai rhyngwladol.

Dros 4 mlynedd 'nes i ddringo'r rhengoedd a dechrau arbenigo yn yr adran Bwyd a Diod. Yn ystod y blynyddoedd yma roeddwn i'n agos iawn at faes awyr Gatwick a hefyd yn gweithio efo nifer o bobl oedd yn dod o gefndiroedd ar draws y byd - gwledydd fel De Affrica, Denmarc, India, Bangladesh, Sri Lanka, Norwy, Sweden, St Hellena - a dyma lle wnes i ddal y byg a'r angerdd i deithio'r byd.

Ym mis Mai 2006, ar ôl nifer o gyfweliadau, wnes i gymryd fy ngham rhyngwladol cyntaf a derbyn swydd yn Abu Dhabi - UAE (*United Arab Emirates*) yn gweithio efo Crown Plaza - rhan o gwmni IHG (*International Hotel Group*). 15 mlynedd ymlaen a dydw i ddim wedi edrych yn ôl nac wedi byw yn ôl yng Nghymru. Ar ôl 5 mlynedd yn Abu Dhabi ges i gyfle i ymuno â chwmni Hilton a hefyd y cyfle cyntaf i fyw ar gyfandir Affrica, ac mi ydw i wedi bod yno rŵan am dros ddegawd. Yn Ethiopia am agos i bedair blynedd; Nigeria am dros ddwy flynedd ac wedyn ers 2016 yn Ne Affrica, mewn swydd sydd yn edrych ar ôl gwestai ar draws cyfandir Affrica.



Rhys wrth ei waith



# CROESAIR


**Ar draws**
1 Cartref (6)
4 Mwydro (5)
8 Trawiad caled (5)
9 Planhigyn gardd (6)
10 Heb fod ymhell (5)
11 Carcharu (4)
13 Mesur o bwysau (4)
15 Ysgrifennu record ffurfiol o drafodaeth (7)
17 Rhoi'r gorau i (5)
18 Rhan o faes gweithgarwch (6)
22 Heini (6)
23 Stori hir ysgrifenedig (5)

**I lawr**
1 Hollt (4)
2 Llyn o ddŵr y môr (5)
3 Dod i ben â rhywbeth (6)
5 O gwmpas (5)
6 Sylwedd brown melys (7)
7 Torri'n deilchion (6)
12 Hanes bywyd rhywun (7)
14 Math o bin hir gaiff ei ddefnyddio i wnïo (6)
16 Lliw a ddefnyddir i harddu'r wyneb (5)
19 Nerth (4)
20 Cynyddu (4)
21 Cyfarfod cyhoeddus mawr (4)

**Atebion Mis Gorffennaf**

**Ar Draws**: 1 Cyndyn, 4 Dathlu, 8 Rotor, 9 Abermo, 10 Sur, 11 Ddoe, 12 Allan, 13 Camlas, 15 Eto, 18 Iglw, 19 Cenawon, 22 Edifar, 23 Caleb

**I Lawr**: 1 Corws, 2 Natur, 3 Ymroddiad, 5 Anelau, 6 Lambastio, 7 Dameg, 13 Criced, 14 Malais, 16 Baw, 17 Rasal, 20 Nebo, 21 Cam






Golosg i gynnau'r 'braai'




Olion 'apartheid' yn amgueddfa Nelson Mandela

**Y wlad**

Pan mae'n dod at ddisgrifio'r wlad, wel - lle ydw i'n dechrau? Mae hi'n wlad sydd wedi bod yn y newyddion ers dyddiau'r Apartheid yn ôl o 1948 hyd 1990. Yn enwedig 27ain Ebrill, 1994 pan etholwyd Nelson Mandela i swydd Llywydd y wlad. Ers y dyddiau yna mae'r wlad wedi bod ar daith reit galed i setlo cyfreithiau'r wlad gan geisio bod yn deg efo pawb.

Heddiw mae'n wlad fendigedig, efo celfyddyd lwythol gryf sydd efo unarddeg iaith swyddogol, gyda Saesneg yn un ohonyn nhw. Mae'n biti, a dwi ddim isio symud i mewn i fyd gwleidyddiaeth, ond mae bellach yn wlad reit llwgr, sydd yn brwydro efo canlyniadau blynyddoedd o lwgrwobrwyo - system addysg wan, tlodi, system feddygol wan, cyfradd troseddu uchel a diffyg isadeiledd sylfaenol fel trydan a dŵr. Peth arall ydi'r diffyg mewn isadeiledd sylfaenol y wlad - sy'n creu problemau ei hun fel "*Load Shedding*" - gostwng trydan mewn rhannau o'r wlad a'r drefnlen i gefnogi system drydan y wlad. Cofiwch mae costau byw is na Chymru ond mae hyn ynghlwm efo gwerth yr arian lleol - y rand.

Ar y llaw arall mae De Affrica yn wlad anhygoel. Mae'n gweld y tymhorau i gyd, o aeaf oer i haf eithriadol o boeth. Mae'n wlad eang iawn, sydd yn golygu bod gwahanol rannau o'r wlad yn profi tywydd gwahanol drwy'r flwyddyn. Ochrau mwy trofannol ac yna i anialwch a milltiroedd o goedwig - mae'r wlad efo rhywbeth i siwtio pawb. Mae'r wlad yn enwog am ei byd natur, yn enwedig "*The Big 5*" - llew, eliffant, *rhino*, llewpart a'r byfflo.

Yn fwy na phob dim arall, dwi wedi teimlo'n gartrefol iawn yma. Cefais groeso cynnes i'r wlad ac wedi llwyddo i adeiladu casgliad gwin reit drawiadol! Y pethau gorau, yn fy marn i, yw'r bobl, natur, y bwyd a'r gwin! A'r pethau gwaethaf ydi'r llygredigaeth a'r gyfradd troseddu uchel.



Rhys a'i genod

**Mwynhau a cholli**

Fy nheulu a ffrindiau ydy'r peth mwyaf. Ar ôl bod i ffwrdd o Gymru am dros ugain mlynedd ac o Brydain am dros bymtheg dwi ddim yn colli'r pethau bach. Ond ar adegau dwi'n colli systemau cadarn y wlad hon.

Pan dwi'n ymlacio dwi yn gwneud y gorau o nghasgliad gwin, trafeilio pan mae'n bosib a lot o goginio - yn enwedig ar *Braai* neu BBQ i bobl yng Nghymru, ac wrth gwrs cael amser efo fy nheulu a'r cŵn a chathod acw.

**Effaith Covid-19**

Mae Covid-19 wedi newid fy mywyd o ddydd i ddydd yn arw. Mi oeddwn i'n treulio dwy i dair wythnos yn teithio o gwmpas Affrica yn treulio amser mewn gwestai Hilton, sydd yn dod o fewn fy ardal i. Wedyn pan yn Ne Affrica fyswn i yn swyddfa ranbarthol Hilton, sydd oddi mewn i Hilton Sandton. Ers Covid-19 rydan ni i gyd wedi newid i fywyd digidol gan roi cymorth, cefnogaeth ac arweiniad i'r gwestai drwy systemau rhithiol.

**I'r dyfodol**

Fel arfer roeddwn i yn teithio yn ôl i Gymru bob rhyw 2 flynedd, weithiau yn fwy aml. Daeth Mam a Dad allan i Dde Affrica yn ôl yn 2017 a gawson ni amser anhygoel o gwmpas De Affrica, Lesotho a Saffari yn Zimbabwe. Ers Covid-19 dwi ddim wedi bod adref o gwbl - mae'n dod i 2 flynedd yn Awst 2021.

Mae problemau teithio allan o Dde Affrica, oherwydd yr amrywiolyn De Affrica o Covid-19, dwi ddim felly yn gweld teithio i Gymru yn realistig tan rywbryd yng nghanol 2022 - rhaid gweld sut mae'r drydedd don yn effeithio'r wlad.

Mae cysylltu efo pawb adref wedi bod yr un peth i fi i raddau, trwy fod i ffwrdd o Gymru ers amser hir. Skype, Whatsapp, Telegram, Instagram - mae'r bywyd digidol wedi dod yn rhan o fywyd pawb ers Covid-19.

Ar hyn o bryd mae fy ngwaith a fy nheulu yma yn Ne Affrica - dwi'n bwriadu aros yma am amser reit hir ac yn ystyried prynu cartref yma i'r dyfodol a gwneud cais am *residency*.

Mi fydd cyfle i symud yn y dyfodol os dwi a'r teulu isio symud.

**Cyfarchion i rywun yma yng Nghymru?**

Dad a Mam, fy mrodyr, chwaer, a'u teuluoedd ac wrth gwrs fy ffrindiau gorau ers ysgol - Lucy a Carys!

*Nesta Elliott*

**Yr Eco ar wasgar**


**G**obeithio eich bod chi fel ein darllenwyr yn mwynhau'r straeon a hanesion lleol sydd yn Eco'r Wyddfa. Ond fel arbrawf hoffwn ymestyn yr hanesion o fro'r Eco i holl wledydd y byd!

Gobeithiaf fedru rhannu hanesion trigolion bro Eco'r Wyddfa sydd erbyn hyn yn byw mewn gwledydd eraill ar draws y byd.

Rwyf eisoes yn ymwybodol o frodorion sydd yn byw yn Norwy, Awstralia a Seland Newydd ond yn awyddus iawn i ymestyn hyn ymhellach. Tybed felly allwch chi helpu trwy holi ffrind(iau) neu aelod (au) o'r teulu os fydden nhw'n fodlon rhannu dipyn o'u profiadau efo fi - fel mod innau yn fy nhro yn gallu rhannu hynny efo'n darllenwyr?

Gallwch gysylltu trwy ffonio fi ar 07825 586658 neu ar e-bost Eco'r Wyddfa gan roi enw a manylion cyswllt y brodor ar wasgar. Edrych ymlaen at glywed ganddoch.

**Nesta Elliott**




# Eisiau ymuno â'r côr Cymraeg rhyngwladol cyntaf erioed?



Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn chwilio am gantorion i gymryd rhan mewn prosiect corawl arbennig a fydd yn cael ei premiere byd-eang fel rhan o ŵyl Eisteddfod AmGen, nos Wener 6 Awst.

Mae'r prosiect ychydig yn wahanol i gorau'r Eisteddfod yn y gorffennol, gan fod trefnwyr am glywed gan bobl o bob cwr o Gymru - a thu hwnt - i fod yn rhan o gôr uchelgeisiol rhyngwladol, sy'n bartneriaeth gyda Chanolfan Gelfyddydol Genedlaethol Canada.

Dyma gyfle i berfformio cân newydd sbon, sy'n wir ddathliad o ddiwylliant Cymraeg a'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig i'r byd. Lleuwen Steffan sy'n gyfrifol am gyfansoddi'r gân, gyda'r trefniant corawl a'r cynhyrchu yng ngofal Erin Costelo o Nova Scotia.

"Enw'r gân yw 'Os' a hoffwn estyn croeso i bawb i ganu ar hon", meddai Lleuwen, sy'n wreiddiol o Rhiwlas ond bellach yn byw yn Llydaw. "Mae'n llawn egni a gobaith, yn addas ar gyfer pob math o lais - mae'n gân sy'n dathlu'r amrywiaeth. Byddwch yn recordio gyda'ch ffôn i gyfeiliant syml a byddwn yn ychwanegu drymiau, bas ac offerynnau eraill ar ôl eich cyfraniad chi. Cewch glywed y fersiwn terfynol pan fyddwn yn rhyddhau'r gân ar gyfer Eisteddfod AmGen."

A chyda phopeth yn ei le, mae'n bryd cyhoeddi'r alwad am gantorion i ymuno â'r côr unigryw hwn. Felly, os ydych chi'n soprano, alto, tenor neu'n faswr, mae croeso cynnes iawn i chi yn y prosiect rhyngwladol arbennig yma. Does dim rhaid wrth brofiad o ganu mewn côr chwaith. Os allwch chi ganu mewn tiwn - cofrestrwch erbyn 14 Gorffennaf!

Meddai Cydlynydd y prosiect, Mari Pritchard, "Ry'n ni am greu'r côr Cymraeg rhyngwladol cyntaf erioed, ac ry'n ni angen eich help chi! Mae hon yn gân egnïol ac yn llawn gobaith, a'r bwriad yw defnyddio ein diwylliant i ddatblygu ymhellach y berthynas rhwng Cymru a Chanada - a pha well ffordd i wneud hynny na thrwy greu côr enfawr gyda chantorion o'r ddwy wlad - a thu hwnt?

"Mae'n brosiect eithriadol o uchelgeisiol, ac ry'n ni'n hyderus y bydd 'na gantorion gwych yn ymateb i'r alwad er mwyn i ni greu fersiwn cwbl wych o'r gân hyfryd yma. Mae pawb yn edrych ymlaen yn arw at glywed y fersiwn terfynol!"

Mae'n hawdd cymryd rhan yn y prosiect. Y cyfan sydd ei angen yw recordiad ohonoch chi'n canu'r gân, ynghyd â hunlun (selfie) ar gyfer y fideo (os ydych chi eisiau) ac yna, fe fydd y trefnwyr yn gwneud y gweddill er mwyn creu côr rhithwir rhagorol. Dilynwch y ddolen yma i ganfod rhagor o wybodaeth ac i gofrestru, https://nac-cna.ca/en/popularmusic/os.

# Un funud fach ...

## Ffrwyno'r Trafod

Gwaetha'r modd o ran y chwaraewyr a'u rheolwr, colli gêm derfynol yr Ewros a wnaeth tîm Lloegr. 'Football's going home' oedd hi wedi'r cyfan, ac mae'n anodd gwadu hynny â'r Eidal bellach wedi ennill yr Ewros ddwywaith a'r Cwpan Byd bedair gwaith. Halen ar y briw i chwaraewyr Lloegr oedd colli trwy giciau cosb ar ddiwedd y gêm. Mwyaf trist, doedd hi ddim yn annisgwyl y byddai'r cicwyr aflwyddiannus yn cael eu pardduo gan lawer o'r cefnogwyr; a chywilydd pêl-droed a chywilydd cenedl oedd bod llawer ohono unwaith eto'n hiliol. Un a ddioddefodd oedd Marcus Rashford, y chwaraewr ifanc a fu mor ddylanwadol dros y deunaw mis diwethaf trwy ei ymdrechion i ofalu bod plant a theuluoedd ei wlad ei hun yn cael bwyd yn eu boliau a llyfrau i'w darllen.

Bydd y rhan fwyaf o'r bobl a fu'n dweud eu dweud ar y cyfryngau cymdeithasol yn aros yn anhysbys. Ond gorfu i un person gynnig ymddiheuriad (digon tila) drannoeth y gêm am ddweud mewn neges Twitter, 'Ydw i'n grintachlyd wrth awgrymu y dylasai Rashford fod wedi treulio mwy o amser yn perffeithio'i bêl-droed a llai o amser yn chwarae gwleidyddiaeth?' Nid dyna'r geiriau gwaethaf a glywyd wedi'r gêm ond cawsant sylw am mai'r Aelod Seneddol Ceidwadol Natalie Elphicke a'u dywedodd. Heb os, 'chwarae gwleidyddiaeth' oedd Ms Elphicke ei hun am fod Marcus Rashford ar adegau wedi bod yn feirniadol o bolisïau ei llywodraeth hi. Ar y gorau, roedd ei geiriau'n annoeth ac yn annheilwng o rywun sydd, mae'n debyg, yn treulio amser yn gwirfoddoli mewn lloches i'r digartref ac a ddylai felly fod yn ymwybodol o'r math o anghenion cymdeithasol y bu'r peldroediwr ifanc mor awyddus i fynd i'r afael â hwy.

Mor niweidiol y gall geiriau fod! Yn un o lythyrau'r Testament Newydd, mae Iago'n tynnu sylw at hynny trwy sôn am y drwg y gall aelod bychan o'r corff ei wneud: 'Y mae'r hil ddynol yn gallu rheoli pob math o anifeiliaid ac adar, o ymlusgiaid a physgod; yn wir, y mae wedi eu rheoli. Ond nid oes neb sy'n gallu rheoli'r tafod. Drwg diorffwys yw, yn llawn o wenwyn marwol' (Iago 3:7-8). Mae geiriau'n medru brifo ac yn aml yn gwneud mwy o ddrwg na dim. A chyda Iago, cyffeswn fod 'mynych lithriad yn hanes pawb ohonom' a'i bod yn rhwydd i'n geiriau fod yn feirniadol a maleisus.

Byddai'n dda i bawb gymryd sylw o gyngor Iago i 'ffrwyno'i dafod'. O wneud hynny, byddai cymdeithas yn fwy gwâr o lawer. Ond o gofio mai at Gristnogion yr anfonwyd ei lythyr, mae ganddo gyngor a rhybudd arbennig o berthnasol i ddilynwyr Iesu Grist ym mhob oes: 'Os yw rhywun yn tybio ei fod yn grefyddol, ac yntau'n methu ffrwyno'i dafod, ac yn wir yn twyllo'i galon ei hun, yna ofer yw crefydd hwnnw' (1:26).

I'r Cristion, brwydr yw hi: 'Â'r tafod yr ydym yn bendithio'r Arglwydd a'r Tad; â'r tafod hefyd yr ydym yn melltithio'r rhai a luniwyd ar ddelw Duw. O'r un genau y mae bendith a melltith yn dod. Fy nghyfeillion, nid felly y mae pethau i fod' (3:9-10). A dyna pam fod arnom angen gras bob dydd i reoli'r aelod bychan hwn.

**John Pritchard**


ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# Pentre Gwyn a Pentra bach

Yn gynharach eleni daeth hen ffermdy ym Metws Garmon yn dyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif neu ddechrau'r ganrif ddilynol ar werth. Roedd disgwyl i'r cynigion fod mewn llaw erbyn diwedd Ebrill. Does gen i ddim syniad os cafodd ei werthu, ac os cafodd, i bwy ac am ba bris. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod y ffermdy yn cael ei alw yn Pentre Gwyn, a'i fod yn adeilad wedi ei restru ers 1999. Ond roedd golwg digon tlodaidd arno, ac nid yw'n ymddangos fod unrhyw un wedi byw yno ers nifer helaeth o flynyddoedd – ar wahân i ystlumod. Doedd dim cyflenwad dŵr iddo chwaith.

Felly, beth oedd hanes y ffermdy hwn oedd yn werth ei restru? O chwilio pob cyfrifiad o 1841 hyd 1911 nid yw'r enw Pentre Gwyn yn ymddangos o gwbl. Roedd yr ardal hon i'r de-orllewin o afon Gwyrfai o fewn plwyf Llanwnda hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond yn y ddau gyfrifiad dilynol – 1901 ac 1911 – roedd ym mhlwyf Betws Garmon. Ond os nad yw'r enw Pentre Gwyn yn ymddangos, mae sawl adeilad yn cario'r enw Pentra neu Pentre bach.

Yn 1841 mae dau Pentre bach, gyda Henry Hughes yn byw yn un a Richard Griffith yn y llall. Mae yna hefyd 'Rhen Bentra, lle'r oedd Humphrey Hughes yn byw, a Pentra canol lle trigai Owen Griffith.

Erbyn 1851 mae cartref Henry Hughes yn cael ei enwi fel Pentre (yn fach, yn hen nac yn y canol!). Mae Elin Griffith (gweddw Richard), Humphrey Hughes ac Owen Griffith yn byw yn Pentra bach.

Mae'r tudalennau ar gyfer y rhan hon o blwyf Llanwnda ar goll yn 1861.

Yn 1871 mae'r trigolion cynnar wedi diflannu, gyda Robert Griffith yn byw yn Pentra, Jane Griffith mewn tŷ arall o'r enw Pentra, ac Appolonia Hughes (merch Humphrey) mewn tŷ arall o'r un enw. Hugh Hughes sy'n byw yn Pentra bach bellach.

Un tŷ yn unig sydd yma yn 1881, gyda bugail o'r enw John Hughes yn byw yn Pentra bach.

Yr un yw'r sefyllfa yn 1891 hefyd. Aeth y bugail ar ei hynt, a John Williams sy'n byw yn Pentra bach bellach.

Erbyn 1901 mae tri thŷ yn ymddangos. Griffith Roberts sy'n cadw Pentra Farm (yr unig dro i mi weld yr enw hwn), ac y mae dau Pentra bach, gyda John Williams yn un a John R. Williams yn y llall.


Erys John R. Williams yno yn 1911, ond Jane Roberts sydd bellach yn Pentra, a thri o'i meibion yn gweithio yng ngwaith mwyn haearn Nant y Betws.

Dyna felly bum enw gwahanol yn yr un ardal: Pentra, Pentra canol, 'Rhen Bentra, Pentra Farm a Pentra bach (a'r olaf sy'n ymddangos amlaf). Ond dim un Pentra Gwyn.

Troi felly i Fap Degwm Plwyf Llanwnda sy'n dyddio o 1842, a dim ond dau ddaliad sy'n cael eu rhestru: Pentra bach gyda Henry Hughes yn denant, a Pentra gyda Richard Griffith yn denant. Ble tybed roedd Humphrey Hughes ac Owen Griffith (y ddau yn Pentra bach flwyddyn ynghynt, ac yn dal yno yn 1851)? A'r hyn sy'n gwneud pethau'n fwy cymhleth yw'r ffaith fod daliad Pentra bach yn 42 erw, ac yn fwy na Pentra, oedd yn ddim ond 22 erw. Mae Pentra yn ffinio â thir Cae Sgubor, a Pentra bach yn ffinio â Thyddyn Syr Hugh.

Perchennog y daliadau uchod oedd John Griffith Griffith, a'i eiddo hefyd yn cynnwys Llwyn Bedw, Cilfechydd, Cae rhug, Hafod y Wern, Bryn Clogwyn a Panty. Roedd y cyfan yn ymestyn o Alltgoed Mawr a rhwng afon Gwyrfai a llethrau Moel Smytho. Roedd y John Griffith Griffith hwn yn byw ym Mhlas Llanfair, Llanfair-is-gaer, a bu'n Uchel Siryf Sir Feirionnydd. Roedd Margaret, merch John Rowlands, Plas y Nant, Betws Garmon yn hen, hen nain iddo; ac yr oedd ganddo hefyd gysylltiadau teuluol a stadau Bodaden, Brynodol a Chefnamwlch. Bu farw yn 1863, felly mae'n debyg mai ef fu'n gyfrifol am osod ffenestri newydd ym Mhentre Gwyn a chodi estyniad iddo (sy'n cael eu disgrifio gan CADW). Ond pa un o'r pum adeilad gyda'r enwau gwahanol oedd hwn?

O chwilio am gyfeiriadau




cynharach, deuthum ar draws dwy ddogfen yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif. Mae'r gynharaf yn dyddio o 300 mlynedd yn ôl, sef 2il Medi 1721. Mae'n ddogfen sy'n ymwneud â pherchnogaeth Andrew Brereton, Tŷ yn y Collfryn, Llanwnda, ac enwir Pentra bach ynghyd â'r caeau a berthynai i'r fferm/tyddyn. Mae rhai enwau yn ddigon cyffredin, megis Cae yr ŷd, Cae newydd, Cae Haidd a Chae glas. Mae eraill yn llawer mwy diddorol: Gweirglodd y Briddell, Erw bont yr hirdir, Gwern y beudy, Cae clwt y gelynnen, Cae y dryll rhedyn, Cae pont y ceffyl, Cae Craig y Gaer(?) berth(?), a Buarth Hafoty. Mae olion rhai o'r enwau hyn wedi eu cadw, ac yn ymddangos ar Fap Degwm 1842, gant ac ugain o flynyddoedd yn ddiweddarach: Herdir, Erw bont, Dryll y gelynnen a Chae'r foty. Tybed a oes rhai o'r enwau hyn yn dal ar gof heddiw?

Mae'r ail ddogfen yn dyddio o fis Gorffennaf 1796 ac yn ymwneud â Stad Brynodol, gan enwi eiddo a thenantiaid. Ymhlith yr eiddo ceir Hafod y Wern, Tyddyn Syr Hugh, Cae Skybor (Sgubor) a Llwyn Bedw. Gŵr o'r enw Richard Griffith oedd tenant Tyddyn y Pentra bach alias Pentra bach. Mor gynnar â hyn, felly, roedd enw llawn y daliad wedi ei gwtogi i Pentra bach.

Ai hwn felly yw'r Pentre Gwyn sy'n adeilad rhestredig gan CADW ?

**The Royal Blue Book**

Beth tybed yw'r cysylltiad rhwng Gallt y Foel a llyfr 'brenhinol'? Yr ateb yw gŵr o'r enw Robert Humphrey Davies, neu Gomerian, a rhoi iddo ei enw barddol. Trydydd plentyn Humphrey a Janet Davies oedd Gomerian a gafodd ei eni yn 1856. Ganed ei dad yng Nghlogwyn Guto ym mis Gorffennaf 1832, ond fel llawer un arall yn y cyfnod, mudodd yn llanc ifanc i'r America yn 1849 ac aros yn Slatington, Pennsylvania – ac yn ôl adroddiadau, doedd dim mwy na rhyw hanner dwsin o dai yno bryd hynny. Dychwelodd yn 1851 a phriodi Janet/Jonet o'r Nant Uchaf, Llanberis. Erbyn 1861 roedd y teulu'n byw ym Mhen y Gogwydd, yn parhau yno yn 1871, ond yna'n mudo am yr eilwaith i Slatington yn 1872.

Datblygodd Gomerian i fod yn ffigwr amlwg ym mywyd y Cymry Cymraeg yn America. Roedd yn ohebydd rheolaidd i bapur newydd Cymraeg 'Y Drych', a bu'n ysgrifennydd Gorsedd Eisteddfod Genedlaethol America. Ef fu'n gyfrifol am gasglu a golygu cynnyrch Eisteddfod Fawr Pittsburg a llywio'r gyfrol drwy'r wasg. Does wybod pam y galwyd y gyfrol honno yn Royal Blue Book, ond fe'i cyhoeddwyd tua 1915-16. (Mae'n dal ar werth ar rai gwefannau hen lyfrau am tua £30).

Pan fu Humphrey Davies, y tad, farw yn 1909, roedd y plant i gyd ond un wedi setlo yn y wlad newydd. Yr unig un i ddychwelyd i Gymru oedd brawd ieuengaf Gomerian, sef William Davies, ac yr oedd yn byw yng nghartref genedigol ei dad – Clogwyn Guto.

Tybed oes rhai o'i ddisgynyddion yn dal yn yr ardal heddiw?

**Dafydd Whiteside Thomas**

**www.chwilota.wordpress.com**
**Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r *Eco*, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA (Ffon 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com**


# Ar Drywydd Enwau Lleoedd

Mae sawl awdur lleol ymysg y cyfrannwyr i'r gyfrol newydd hon o erthyglau ar enwau lleoedd. Mae'r gyfrol yn cael ei chyhoeddi gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Lolfa i ddathlu pen-blwydd yr Athro Gwynedd O Pierce yn 100 oed yn 2021. Gwnaeth yr Athro Pierce fwy na neb i sicrhau fod gwyddor astudio enwau lleoedd yng Nghymru wedi ei gosod ar seiliau cwbl gadarn.

Cewch ddarllen 13 erthygl Gymraeg a 7 Saesneg am bynciau megis enwau ardal Caernarfon (tref enedigol yr Athro Pierce), enwau lleiniau pysgota a throbyllau yn y Fenai, enwau strydoedd Aberaeron a Chaerdydd, a hanes yr ymgyrch i safoni enwau lleoedd Cymru. Ceir hefyd erthyglau gan arbenigwyr o Iwerddon, yr Alban a Chernyw, gan drafod y cyswllt rhwng Penarth ym Morgannwg a'r 11 Penarth a geir yng Nghernyw.

Y cyfranwyr yw - Gareth A Bevan, Glenda Carr, Dylan Foster Evans, G Angharad Fychan, Richard E Huws, Eleri Hedd James, Heather James, Peter McClure, Prys Morgan, Richard Morgan, Aengus Ó Fionnagáin, Hywel Wyn Owen, Oliver Padel, Rhian Parry, Ann Parry Owen, David N Parsons, Simon Taylor, Dafydd Whiteside Thomas, David Thorne, Dei Tomos, Ifor Dylan Williams.

Mae'r gyfrol ar gael yn eich siop lyfrau lleol rwan am £14.99.




# Gwasanaeth Gwrando'r Samariaid

Mae'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth gwrando ar gyfer unrhyw un sy'n unig, yn drallodus neu'n ystyried diweddu eu bywyd, ac rydym ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Yn ystod 2020 ymatebodd y Samariaid i alwad am gymorth bob 9 eiliad: dros 3 miliwn o alwadau ffôn a thros hanner miliwn o ebyst. Wrth drafod teimladau o unigrwydd a diffyg cysylltiad sy'n medru arwain at hunanladdiad, gobeithiwn y bydd y teimladau o anobaith yn cael eu lleddfu a bod y galw yn sylweddoli bod modd gwella'r sefyllfa rywfaint.

Gweledigaeth y Samariaid yw y bydd llai'n marw o hunanladdiad. Nid yw hunanladdiad yn anochel; mae'n bosib ei rwystro, ac mae llawer o waith ymchwil wedi dangos mai'r allwedd i hyn yw rhoi cyfle i siarad a rhannu teimladau. Mae'r rhesymau dros hunanladdiad yn gymhleth, ond mae pob ystadegyn yn cynrychioli unigolyn sy'n gadael ar ôl deulu a chymuned a ddrylliwyd gan eu colled.

Mae'r nifer o hunanladdiadau'n bryder mawr. Yn 2019, diweddodd 330 o bobl eu bywydau yng Nghymru: 248 o ddynion ac 82 o ferched. Dengys y ffigurau hyn fod dynion deirgwaith mwy tebygol na merched o gymryd eu bywydau. Dynion yn yr oedran 40-44 sydd â'r gyfradd uchaf o hunanladdiad yng Nghymru; a hunanladdiad sy'n gyfrifol am y nifer uchaf o farwolaethau mewn dynion ifanc rhwng 16 a 25.

Mae'r ystadegau'n dangos bod achosion o hunanladdiad yn uwch yn siroedd gwledig Cymru, ac mae hynny'n adlewyrchu'r pwysau a'r problemau sydd yng nghefn gwlad ac o fewn y byd amaethyddol. Yng Ngogledd Cymru yn 2019, Gwynedd oedd y sir â'r raddfa uchaf o hunanladdiadau – 15.5 hunanladdiad ar gyfer pob 100,000 person; 13.1 ar Ynys Môn a 11.5 yn Sir Conwy. Ceredigion oedd â'r raddfa uchaf yng Nghymru, sef 18.2. Ar y ddwy bont dros y Fenai ceir ffonau argyfwng wedi eu cysylltu â'n Cangen, yn y gobaith y bydd unigolyn yn ffonio mewn sefyllfa o anobaith.

Mae'r Samariaid ar gael nid yn unig i bobl sy'n ystyried diweddu eu bywyd ond i bawb sydd am gael clust i wrando a chyfle i fynegi eu teimladau a'u pryderon. Mae unigrwydd, iselder a theimladau o hunanladdiad yn gallu effeithio ar bobl o bob rhan o gymdeithas. Ni fyddwn byth yn barnu. Ar adegau, gall fod yn haws ymddiried mewn rhywun sy'n gwbl anhysbys. Mae'n bosib cysylltu dros y ffôn, trwy e-bost neu lythyr, a phan fydd y pandemig Covid ar ben, bydd modd unwaith eto ymweld â'r Ganolfan i gael sgwrs wyneb yn wyneb.

**Y Samariaid yng Ngogledd-orllewin Cymru, a Chymorth yn y Gymraeg**

Mae Cangen y Samariaid yng Ngogledd-orllewin Cymru ym Mangor yn gwasanaethu Gwynedd, Ynys Môn a Gorllewin Conwy.

Mae Llinell Gymraeg ar gael bob nos rhwng 7 ac 11 o'r gloch, ar y rhif 0808 1640123 ac mae'n bosib ysgrifennu llythyr atom yn Gymraeg. Gweler ein gwefan am fanylion llawn – www.samariaidbangor.cymru.

**Yr angen am fwy o wirfoddolwyr, yn arbennig siaradwyr Cymraeg**

Mae angen dybryd am fwy o wirfoddolwyr yn y ddwy iaith i ddelio â'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaeth, ac yn arbennig siaradwyr Cymraeg i gynnal ac ehangu'r

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

gwasanaethau Cymraeg yn ein cangen ddwyieithog yma yn y Gogledd-orllewin. Yr hyn sydd angen yw'r gallu i wrando, ac mae cwrs hyfforddi manwl cyfrwng Cymraeg ar gael wrth baratoi ar gyfer bod yn wrandawr. Bydd y cwrs hyfforddi nesaf ym mis Medi. Yr ymrwymiad yw dyletswydd 4 awr yr wythnos, gydag un ddyletswydd dros nos bob 4 i 6 wythnos. Os teimlwch y gallwch chi wirfoddoli, cysylltwch â ni i gael y manylion llawn trwy ffonio 01248 674984 (Ffôn Swyddfa, nid ar gyfer cymorth emosiynol) neu ebostiwch – recriwtio@samariaidbangor.org

**Sgyrsiau i Fudiadau a Chymdeithasau**

Rydym yn rhoi sgyrsiau ac yn rhannu gwybodaeth â mudiadau a chymdeithasau o bob math ynghylch sgiliau gwrando ar eraill. Byddwn ond yn rhy falch i ddod atoch. Cysylltwch â ni os gallwn fod o gymorth.

Tudur Williams
Cyfarwyddwr – Samariaid
Gogledd Orllewin Cymru



# I Llên Natur

## Yr Hen â Ŵyr…?

Mis diwethaf yn y golofn hon mi godais y sgwarnog hwnnw, 'ragarugs' Waunfawr. Na, doedd hyn ddim i'w wneud â Beganîfs, na dim llysenw arall ar bobl pentrefi Bro'r Eco - sgwarnog arall eto fyddai hynny i rai mwy cymwys na fi i olrhain eu hanes. Llysenw poblogaidd yw, neu oedd, 'ragarug' serch hynny, yn wreiddiol ar yr aderyn cyfrinachgar hwnnw y rhegen ŷd, aderyn a stelciai o'r golwg yn y caeau gwair ers talwm ond yn galw ei enw ei hun yn dragwyddol. Crex crex oedd ei gri, yn ddi-baid, a hynny yn y Lladin gyda llaw. "Crex-crex, crex-crex", oedd ei sŵn, fel rhywun yn crafu dannedd crib gwallt efo gewin. Ia, a dyna enw gwyddonol yr aderyn a ddaeth hefyd trwy ei enw Cymraeg i olygu person swnllyd sy'n clebar ac yn swnian yn ddiddiwedd.


Erbyn deall, mae rhai pobl sy'n gyfarwydd â, ac yn dal i ddefnyddio 'ragarug' yn ei ail ystyr (y clebrwr ailadroddus), yn gwybod dim am yr ystyr wreiddiol (yr aderyn yn y cae gwair). Ydych chi'n perthyn i'r grŵp hwnnw – ynteu ydych chi'n cofio sŵn 'crex-crex' yn y caeau gwair ers talwm ar ddyddiau hirfelyn o haf? Hoffwn wybod.

Dwi wedi amau ers tro bod yr aderyn ei hun, ond nid yr ymadrodd, yn ddieithr i bobl ucheldir Arfon! Dwi fy hun ddim yn ei gofio o gwbl yn y Waunfawr yn y 1950au hwyr, a minnau'n cael fy suo i gysgu pob noson o haf gan sŵn hudolus y gylfinir yng nghaeau gwair Y Rala tu cefn i'm cartref (sŵn diflanedig arall yma erbyn hyn).

Ond yn 1949 roedd yna ferch ifanc o'r enw Mary Parry a fu'n byw yn ei hen gartref ar y pryd ym Mhlas Glanrafon – un o dai hynaf y Waunfawr – yn ymddiddori ym myd natur a phob byd a bywyd arall yn ei bro yn ddiweddarach. Medrwch chithau, yn well na fi, adrodd hanes ei bywyd fel athrawes Bywydeg ym Mrynrefail (disgybl Ysgol Dre o'n i), ac am y drysorfa o wybodaeth oedd ganddi am ei




chynefin ac achau ei chyd-bentrefwyr. Ond yn ôl yn 1949 (ac mae gen i'w phapurau i brofi – diolch i'w theulu am eu rhannu â mi) roedd Mary yn ymddiddori o ddifri ym mywyd gwyllt Plas Glanrafon pan o'n i, y pen arall i'r pentref (Pen y Bont) yn dal yn fy nghlytiau. Erbyn y 1960au roeddwn i yn llanc ac yn swanc yn crwydro'r pentref; y "bompren" ac ar hyd 'yr hen lein' i'r 'eilands', efo ysbienddrych newydd am fy ngwddf – heb y syniad lleiaf bod Mary wedi fy rhagflaenu yn y maes hwnnw ers 15 mlynedd a mwy.



Yn ei 'notebook' cofnodai Mary (yn y Saesneg fe synnech wybod, efallai) drefn canu olaf y gwahanol adar wrth noswylio cyn machlud yr haul bob nos. Cofnodai hefyd drefn amseriad eu deffro gyda'r wawr. Pwy ddywedodd bod y Cymry'n ddi-feind o natur a gwyddoniaeth y meysydd? Ynteu ai Mary oedd o flaen ei hamser?

Mae'n debyg bod poblogaeth y rygarug eisoes yn crebachu yn yr ardal hyd yn oed yr adeg honno. Soniodd Mary amdanynt yn 1949 yng nghaeau Ceunant, fferm gyfagos i Blas Glanrafon, ond fel rhywbeth eithriadol. A phobl fel hi ddylai wybod beth oedd yn eithriadol, a beth oedd yn rheolaidd gan mai sôn am brofiad hi a'i theulu mewn un man dros amser hir ydoedd. Un broblem sydd gennym yn y byd modern sydd ohoni yw ein hanallu i weld newidiadau graddol yn y byd o'n cwmpas gan gymaint rydym yn mudo o un lle i'r llall. Nid yn unig hynny ond mae cof y genhedlaeth hŷn (ac nid beirniadaeth o neb mo hyn), cymaint yn fwy na chof y genhedlaeth iau, wrth reswm. Rhaid parchu, felly, gof y rhai sy'n hŷn na ni, a chofio efallai, oherwydd eu cof hir, fod peth gwirionedd yn yr hen wireb, 'Yr hen a ŵyr a'r ifanc a dybia'.

**Ymatebion i'r ysgrifau blaenorol**

Ffoniodd Helen Francis yn ddiweddar (gynt o Cilgwythwch, Llanrug a rŵan o Higher Kinnerton yn Sir Fflint) i ddweud ei bod wedi adnabod y llun o Glanrafon a ymddangosodd yn y golofn hon ddau rifyn yn ôl ac yn cadarnhau mai ceffylau wedi eu paratoi at sioe oedd y meirch nobl yn y llun ac mai dyna'r rheswm roedd eu cynffonnau wedi eu plethu. Henry Parry Glanrafon (ewythr Helen a thad Bob Parry'r arwerthwr tai) oedd y dyn ceffylau. Diolch Helen am gysylltu ac am oleuo.

Diolch hefyd i Anita Butler, o Lanfairfechan erbyn hyn, a ddywedodd ar ôl y rhifyn diwethaf: "Newydd fod yn darllen yr Eco a'r sôn am gau cyrtans [i gynhebrwng]. Dwi yn cofio hynny yn Llanberis hefyd. Tŷ yr ymadawedig yn cau y cyrtans tan ddiwrnod y cnebrwn, a tai o gwmpas yn eu cau ddiwrnod y cnebrwn. Cofio y 'danfon' hefyd ym mhentrefi yr ardal. Mae T Rowland Hughes yn cyfeirio at hyn yn 'O Law i Law'. Byddai cnebrwn mawr yn golygu pobol yn mynd mewn i'r parlwr a rhoi pres ar hances ar ganol y bwrdd. Ddim yn siŵr pwy oedd yn cael y pres. Y teulu ma' siŵr. Byddai y Gweinidog wedyn neu y Ficar yn cynnal gwasanaeth byr ac wrth ddod â'r arch allan byddai y dorf yn canu. Y ffefryn wrth gwrs oedd 'O Fryniau Caersalem' yn aml mewn pedwar llais. Tyfu fyny yn y 50au a gweld hyn yn aml. Ceid cnebrwn bach hefyd…. fel cnebrwn preifat heddiw. Te wedyn yn y tŷ. Cymdogion yn gweini. Hefyd yn yr Eglwys yn Llanberis ceid math o Bregeth Angladdol y nos Sul cyntaf ar ôl y cnebrwn a byddai yr organydd yn canu rhywbeth a elwid yn Dead March ar ddiwedd y gwasanaeth. Oeddan ni hyd yn oed yn mynd i weld cynebryngau ar bnawn Sadwrn os oedd na ddim arall i neud. Od nad oes 'na fynwent yn Llanberis. Y mwyafrif yn cael eu claddu yn Nant. Ambell un yn Llanrug. Dim sôn am amlosgi adeg hynny".

**Duncan Brown**


SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

TECSTILIAU
Y BEDOL, BETHEL
CAERNARFON
GWYNEDD. LL55 1AX
tecstiliau@gmail.com
@tecstiliau.cymru
www.tecstiliau.org
Ein cenhadaeth yw hwyluso'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a datblygu a hyrwyddo sgiliau tecstilau yng Nghymru. Wedi'i sefydlu yng Ngwynedd, Gogledd Cymru, mae Tecstiliau yn fudiad elusennol a grëwyd gan grwp bach sydd â diddordeb mewn hwyluso'r celfyddydau tecstilau fel rhan o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru. Wrth wneud hynny, ein nod yw darparu 'lle' corfforol ar gyfer gweithgareddau tecstilau ond hefyd darparu 'lle' diwylliannol i amlygu pwysigrwydd celfyddydau tecstilau yng Nghymru.

ECO'r Wyddfa
O'r Cynghorau

# Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## 1af Mehefin 2021

**Cyfethol**
Enwebwyd Sasha Williams fel Cynghorydd ym Methel a Dawn Parry fel Cynghorydd yn Neiniolen. Croeso i'r ddwy i'n plith.

Cofnodion Cyfarfod 4ydd Mai 2021
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**Materion o'r Cofnodion**
Adre – Dal i ddisgwyl ymateb ynglŷn â phwy sydd yn gyfrifol am dorri gwair o amgylch y tir o gwmpas eu heiddo.

Llwybr Wern i Fodandreg – Derbyniwyd ymateb gan swyddog o Gyngor Gwynedd yn cadarnhau nad oes dim un llwybr yn ardal Llanddeiniolen wedi ei ddargyfeirio.

Polisi Gorfodaeth – Wedi ei dderbyn o adran cynllunio – ond yn uniaith Saesneg.

**Is Bwyllgor Llwybrau**
Cynhaliwyd is bwyllgor llwybrau yn ystod y mis, a chroesawyd swyddogion o'r Cyngor Sir i drafod y ffordd ymlaen i wella llwybrau cyhoeddus. Bydd angen i ni restru'r llwybrau sydd angen sylw, ynghyd â nodi'r fan mae problemau cyn cyflwyno am amcan brisio i wneud y gwaith.

**Is Bwyllgor Meysydd Chwarae**
Cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddogion o Gyngor Gwynedd, sydd yn awyddus i'r Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb am y meysydd chwarae. Cafwyd cyfarfod da, ac mae'r is bwyllgor yn cyfarfod eto'r mis yma i drafod materion a godwyd ymhellach, cyn gwneud penderfyniad. Mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli faint o gyfrifoldeb a goblygiadau sydd ynglŷn â hyn.

**Gohebiaeth a materion eraill**
Twll ar ochor y lôn yn ben lôn Fachwen i Ddinorwig – Wedi adrodd yn syth i'r Cyngor, ac mae'r gwaith wedi ei gwblhau ar frys.

Lonydd ym Methel – bysus yn rhwystredig oherwydd y gwaith ar y lôn.

Trafnidiaeth i Gelli Gyffwrdd - Y lôn yma yn beryg bywyd gyda thwristiaid yn mynd a dod ar ei hyd, angen torri nôl y gwrychoedd ar ochor y ffordd.

Llythyr parcio cartrefi modur yn Allt Ddu a Gallt y Foel - Er bod arwyddion yn nodi nad oes aros dros nos yn yr ardal, mae'r arwyddion yn rhy fach o lawer. Ar benwythnos Gŵyl y Banc, roedd 28 cerbyd wedi ei barcio yno dros nos, ynghyd ag ar Allt y Foel, lle mae parcio yn beryg bywyd fel mae hi. Yn ychwanegol i hyn, maent yn defnyddio cwt sydd yn y cae yn perthyn i ffermwr lleol fel tŷ bach. Mae'n bwysig nodi nad oes dim un o'r rhain yn cyfrannu at economi'r ardal drwy wneud hyn, ac mae hyn yn prysur fynd yn fater iechyd a diogelwch. Awgrymwyd i gysylltu â Swyddogion Traffig Cyngor Gwynedd er mwyn iddynt ymweld â'r safle.

Chwarel Dinorwig – Mae rhai wedi bod yn campio yn y chwarel.

Mynedfa Chwarel – Giât wedi malu wrth fynedfa i'r chwarel yn Dinorwig.

**Cynllunio**
C21/0488/18/LL Siop Bethel – Cais i newid o siop yn ôl i dŷ - Dim Gwrthwynebiad

**Seddi Gwag**
Bellach, mae 2 sedd wag ar Y Cyngor sef 1 yng Nghlwt-y-Bont a'r llall ym Mhenisarwaun. Os oes gan rywun ddiddordeb, croeso i chi gysylltu â'r clerc neu un o'r cynghorwyr cymunedol.

**O Gwmpas y Bwrdd**
Penisarwaun – arwydd wedi ymddangos fod y lôn ger Tan y Gaer yn cau ar y 14eg. Cysylltu i gael cadarnhad.

Bethel - Llechi dal yn rhydd ar do hen Gapel Bethel. Llechi a phren wedi disgyn i'r fynwent. Tybed os oes angen cau'r llwybr oherwydd diogelwch.

Lôn o Cysegr i sgwâr Llanrug - Angen Ail beintio'r llinell wen ynghanol y lôn.

Deiniolen – Llwybr Gorlan, llwyth o sbwriel yn cael ei luchio yno yn rheolaidd. Diolch i un sydd wedi bod yn clirio'r llwybr yn rheolaidd, ers tua mis. Diolch o galon iddo am hyn. Os gwelwch yn dda, ewch a'ch sbwriel adref, neu rhowch eich sbwriel yn y bin. Dewch i ni wella cyflwr ein pentrefi trwy eu cadw'n lân a thaclus.

Ffens llwybr Gorlan - Wedi dymchwel, ac mae hi'n beryglus gan fod yna dibyn i'r chwith.

Parcio Y Bull - Problemau wedi codi efo pobl yn aros yn y Bull. Wedi parcio ar hyd y lôn lawr ar linellau melyn, a neb yn gallu troi i gefn Stryd Newydd dros y penwythnos. Er bod y Cyngor a sawl un wedi gwrthwynebu'r cynllun yma oherwydd problemau parcio, sut mae'r adran gynllunio yn gallu cyfiawnhau ei ganiatáu?

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell, Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk

Ogwen
Adferiad Corfforol
Eli Lichtenstein
Manual Therapy (diploma)
07743373895
Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau a thensiwn cur pen

# Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug

## 18fed Mai 2021

**Y Fynwent**
Derbyniwyd adroddiad yn nodi fod y pwyllgor wedi trafod y materion canlynol.

Fod ffurflenni wedi'u haddasu ar gyfer ceisiadau ar gyfer hawl i gladdu a'r hawl i osod cofeb.

Bydd ffi o £5 i'w godi am hawl i osod cofeb a bod hyn i'w ystyried fel ffi am bermit.

Nodwyd fod cwyn wedi'i dderbyn am gyflwr rhai cerrig beddi ar ôl i'r gwair gael ei dorri. Adroddwyd fod pwyllgor y fynwent wedi cyfarfod a'r torrwr gwair a'r casgliad oedd nad oedd yn bosib gwneud dim am hyn. Nodwyd mai cyfrifoldeb perchennog y garreg ydi ei glanhau a byddai yn hollol anymarferol i'r torrwr gwair lanhau pob carreg fedd yn y fynwent.

Adroddwyd fod yr aelodau wedi cael cyfle i ddefnyddio system chwilio'r fynwent ac i roi sylw neu adborth yn ôl amdano cyn ei gyhoeddi. Nodwyd fod angen cywiro rhai manylion ar y map cyn ei gyhoeddi.

Derbyniwyd adroddiad hefyd am y gwaith sydd ar y gweill yn dilyn cario allan asesiad risg yn y fynwent. Roedd yr asesiad yn cynnwys y llwybrau, waliau ac offer ynghyd a'r cofebion. Cafwyd manylion am yr asesiad risg ar yr 746 o gofebion, gan eu rhannu i 3 categori. Categori 1 - ble mae angen sylw brys; categori 2 - ble mae angen sylw o fewn y flwyddyn nesaf; a chategori 3 - fydd ddim angen archwiliad eto am 5 mlynedd. Nodwyd fod 165 cofeb yng nghategori 1 a 173 yng nghategori 2 yn sgil natur y gwaith a bod gwahanol resymau pam fod cofeb neu fedd yn disgyn i'r categorïau yma. Penderfynwyd ymdrin â gwaith categori 1 a 2 gyda'i gilydd. Bydd y drefn i'w fabwysiadu fel a ganlyn:

Ble mae cofebion wedi eu canfod yn rhydd bydd stêc bren yn cael ei osod tu ôl i'r garreg a'i chlymu yn dynn gyda thap arbennig.

Bydd rhybudd o hyn, ynghyd ag esboniad o'r drefn yn cael ei roi ar hysbysfwrdd y fynwent wrth gychwyn y gwaith a hefyd rhestr o bob bedd / cofeb sydd angen sylw ac yn gofyn i'r teulu gysylltu â'r cyngor. Argymhellir bydd y drefn yma yn parhau am tua 2 fis. Ar ôl hyn, i'r rhai sydd ddim wedi ymateb, bydd llythyr yn cael ei glymu ar y garreg yn gofyn iddynt gysylltu â'r cyngor. Yn y cyfamser, bydd y cyngor yn hysbysebu am bris am wneud y gwaith gyda'r bwriad i'r teuluoedd ei ad-dalu i'r cyngor.

**Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**
Adroddwyd fod trefniadau ar y gweill i wirio'r offer yn y gampfa allanol yng Nghwm-y-Glo. Nodwyd fod angen gwneud hyn yn wythnosol a bod cofnod yn cael ei gadw o bob archwiliad. Nodwyd fod un offer allan o ddefnydd a'n bod yn disgwyl i'r cwmni ddod i gywiro'r broblem. Adroddwyd fod rota am ei greu yn hytrach na fod y gwaith yn disgyn ar un neu ychydig o bobl.

Adroddwyd, yn dilyn cwyn am dyrchod daear yng nghae chwarae Allt Goch a'r difrod roedd hyn yn ei wneud i offer torri gwair y caeau, fod arbenigwr wedi bod yn y cae a bod y tyrchod bellach wedi eu dal.

Nodwyd nad oedd ymateb wedi'i dderbyn gan Gyngor Gwynedd parthed biniau sbwriel ychwanegol. Hefyd roedd cais wedi mynd at Gyngor Gwynedd i ofyn am offer casglu sbwriel ond eto nid oedd ymateb wedi ei dderbyn.

Roedd y pwyllgor yn awyddus i drefnu diwrnod casglu sbwriel ond penderfynwyd aros hyd nes byddai asesiad risg wedi'i dderbyn gan Cadw Cymru'n Daclus.

Adroddwyd fod siglen baban ar gae chwarae Nant y Glyn wedi ei hadnewyddu.

**Trefniadau ar gyfer goleuadau Nadolig**
Cafwyd trafodaeth ar y mater a nodwyd fod y cyngor eisoes wedi penderfynu symud ymlaen ond fod rhai materion angen sylw pellach. Penderfynwyd y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn ymchwilio i mewn i'r materion yma.

**Y Pwyllgor Bwyd**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod a'u bod wedi cyfethol aelod o'r cyhoedd i eistedd ar y pwyllgor. Penderfynwyd ymchwilio i ffynhonellau o grantiau ar gyfer gallu prynu mwy o fwydydd. Adroddwyd ein bod yn cael bwyd ble mae'n bosib ei gadw yn yr oergell a bod un palet o wahanol duniau wedi ei dderbyn.

**Adroddiad Cynghorydd Berwyn Parry Jones (aelod dros Cwm-y-Glo ar Gyngor Gwynedd)**
**Premiwm Trethi ar dai gwag hefo gwaith sylweddol angen ei wneud**
Mae trethi ar ail gartrefi a thai gwag wedi codi 100%, ond os oes gwaith atgyweirio sylweddol angen ei wneud mae'n bosib cael eithriad allan o dalu am 12 mis. Mae'r cyngor wedi penderfynu, fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai newydd, i roi eithriad treth Cyngor am flwyddyn ychwanegol, ar ôl y 12 mis cyntaf, i hyd at 120 o unigolion sy'n brynwyr tro cyntaf ac wedi prynu tŷ gwag sydd angen gwneud gwaith adnewyddu i'w wneud yn addas i fyw ynddo. Byddai hyn yn caniatáu cyfnod digonol iddynt gwblhau'r gwaith adnewyddu angenrheidiol i ddod a'r tŷ yn ôl i ddefnydd.

Cwmni Byw'n Iach

Mae'r canolfannau wedi ail-agor ac yn cael eu defnyddio i frechu. Mae 12,000 wedi cael ei brechu ynddynt yn barod.

**Llwybr o Bwlch i lawr i Carreg Fran**
Trefnwyd i gerdded y llwybr hefo'r Swyddog Llwybrau. Mae'n bosib cael mynediad o Garreg Fran rŵan, ac i ddod lawr tipyn o'r ffordd o Bwlch, ond mae cwrs y llwybr yn mynd yn anoddach ei ffeindio mewn mannau yn y canol ac mae rhai rhwystrau mewn mannau. Mae'r swyddogion yn mynd i gael gair hefo'r perchnogion a gwirio'r mapiau i ddangos ble y dylai'r llwybr fod. Gobeithir y bydd cyfle, hefo gwirfoddolwyr, i glirio'r llwybr yn y dyfodol.

Derbyniwyd llawer o gwynion ynglŷn â chyflwr y ffordd i lawr i'r fynwent. Rwyf wedi holi swyddogion y cyngor pryd fydd y ffordd yn cael ei wella ond heb gael ateb eto.

**Adroddiad y Cynghorydd Beca Brown (aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd)**
Bu cyfarfodydd arbennig ac arferol o'r cyngor llawn ac roedd nifer o benodiadau gan gynnwys Dafydd Gibbard o Lanrug fel y Prif Weithredwr newydd; y Cyng. Seimon Glyn fel Cadeirydd y Cyngor, yn cymryd drosodd gan y Cyng. Edgar Owen; a'r Cyng. Elwyn Jones fel Is-Gadeirydd.

Cafwyd cyfle i ymuno â'r Cyng. Catrin Wager, Aelod Cabinet yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i gael clywed am gynlluniau'r adran i ymgynghori â'r cyhoedd am eu blaenoriaethau ym maes cymunedau glân a thaclus.

Clywsom hefyd am y cynllun blodau gwyllt cynhenid a fydd yn fodd o annog tyfiant blodau gwyllt wrth ochr ein lonydd ble fo'n briodol a diogel. Anogwyd pawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cwn a baw cwn sydd yn agored ar hyn o bryd.

Bu nifer ohonom yn ymgasglu'n ddiogel y tu allan i siambr y cyngor er mwyn cyd-sefyll â phobl Palesteina.

Bu Gweithdy Craffu Gofal ble roedd blaenoriaethau craffu'r cyngor ym maes gofal yn cael eu pennu am y cyfnod nesaf. Cafodd ystod eang o flaenoriaethau amrywiol eu nodi, gyda sylw arbennig i faterion yn ymwneud â thai ac iechyd meddwl yn sgil y pandemig.

Mynychais gyfarfod o'r Pwyllgor Iaith ble y trafodwyd cynllun peilot y cyngor a fydd yn gwahodd adrannau'r cyngor i fanylu ar eu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith gan geisio hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr mamiaith a siaradwyr newydd fel ei gilydd. Trafodwyd hefyd bolisi trosglwyddiad iaith Llywodraeth Cymru, a nodwyd mai doeth fyddai aros tan i'r Senssws adrodd yn ôl cyn pennu polisi pendant.

Mae pryderon yn cael eu mynegi yn gyson am gyflwr rhai o'r llwybrau yma yn Llanrug sydd yn dueddol o or-lifo pan mae cyfnod o law. Rwyf wedi codi hyn gyda'r swyddogion perthnasol.

Nodwyd pryder hefyd am 'pot holes' yng nghefn Rhos Rug ac am y broblem baw cwn a baw ceffyl ar hyd palmentydd a llwybrau'r ardal.

**Gohebiaeth y cyngor**
Fod y cyngor yn mabwysiadu polisi o ddefnyddio enwau llefydd yn y Gymraeg mewn gohebiaeth Saesneg – e.e. defnyddio Caergybi yn lle 'Holyhead'.

**Ceisiadau Cynllunio**
Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

(a) Codi estyniad deulawr yng nghefn Fron Helyg, Lôn Groes, Llanrug.

(b) Dymchwel modurdy preswyl a chodi modurdy a lolfa haul yn Angorfa, 5 Tai Rhythallt, Llanrug.

# Garddio

**Awst…**

**Yn yr ardd flodau**

Daliwch ati'n gyson i dorri blodau'r pys pêr - i sicrhau digon o flodau. Mae'n bechod bod y coesau yn byrhau wrth i'r haf ddirwyn i ben ond mae eu harogl yn parhau i lenwi'r ystafell ar ôl eu gosod mewn dŵr yn y tŷ.





Mae angen torri'r lafant yn ôl hefyd unwaith bydd y blodau wedi dechrau darfod. Gallwch hefyd rannu'r ellesgen farfog (*bearded iris*) pan mae'r blodau wedi darfod, rhennais i hon y llynedd ac mae i'w gweld yn hoffi ei lle yn y border.

Bydd angen hefyd fwydo'r blodau, yn enwedig y rhai yn y basgedi crog a'r potiau os fydd hi'n sych.

Bydd bylbiau'n dechrau ymddangos yn y canolfannau garddio - felly cyfle i chi eistedd yn yr haul yn eich gardd yn edmygu eich gwaith caled a dechrau cynllunio beth ac ymhle allwch chi blannu rhagor o fylbiau ym mis Medi. Mae'r *alliums* wedi bod yn hynod o hardd dros fisoedd yr haf.

Casglwch hadau aeddfed, sychwch nhw, cyn eu cadw mewn bagiau/amlenni papur wedi eu labelu, ac maent yn barod i'w plannu yn 2022.

**Yn yr ardd lysiau**

Gallwch dorri blaen-dyfiant y tomatos rŵan er mwyn cyfeirio'r egni i'r ffrwyth a chofiwch ddal ati i'w dyfrio'n gyson. Bydd angen rhoi bwyd hylifol i'r pupurau, tsilis a phlanhigion ŵy (aubergines) yn wythnosol hefyd.



Daliwch ati i gynaeafu eich llysiau pan ydynt yn ifanc a blasus. Daliwch i ddyfrio ffa Ffrengig a ffa dringo. Tynnwch nhw'n aml rhag iddyn nhw fynd i had.

Mi fyddaf yn hoffi rhewi mintys wedi ei falu'n fân efo mymryn o siwgr ac ychydig o ddŵr berwedig fel ciwbiau rhew - handi iawn i'w troi'n saws mintys trwy ychwanegu ychydig o finag gwin gwyn a finag balsamic i giwb neu giwbiau - dod ac ychydig o flas yr haf i gig oen yn y gaeaf.

Gallwch hau hadau basil a llysiau'r bara (*coriander*) mewn potiau i'w rhoi ar y silff ffenestr ym mis Awst.

**Medi…**

**Yn yr ardd flodau**

Daliwch ati i fwydo'r blodau gan gynnwys y rhai yn y basgedi a'r potiau a'u dyfrio os yw'n sych.

Gallwch blannu *hyacinth* ac *amaryllis* ar gyfer y Nadolig - gan gofio eu cadw mewn lle oer a thywyll yn y dechrau e.e. yn y garej neu'r sied.

Plannwch fylbiau crocws, *muscari, chinodoxa, allium*, britheg (*snake's head fritillary*), *iris reticulata* a chennin Pedr. Rhaid i mi ddweud fy mod yn hoffi'r rhai bach e.e. '*Tete a tete*' a '*Minnow*' gan eu bod yn ymddangos yn gynharach na'r rhai mawr a dydy'r gwynt ddim yn eu chwalu!

Mae'r hydref yn amser da i blannu coed a llwyni pan fo ychydig o dywydd gwlyb ac ychydig o wres hefyd.

Ewch o gwmpas i dorri'r blodau sydd wedi gwywo, fe gewch gnwd o flodau newydd yn eu lle ond peidiwch â thocio popeth - gadewch flodau'r '*sedum spectabile*', yr *allium* a gweiriau neu asgell addurniadol, mi fyddan nhw'n edrych yn anhygoel wedi eu hamlinellu mewn barrug neu pan fydd yr haul yn isel yn yr awyr. Mae rhai pennau hadau'n fwyd da i'r adar hefyd!

**Yn yr ardd lysiau**

Os oes gormod o gnwd, dyma'r amser i'w cadw, eu piclo, gwneud jamiau, eu rhewi a'u storio neu, wrth gwrs, eu rhannu efo teulu a chymdogion. Rhowch gynnig ar ryseitiau newydd a bydd eich cynnyrch yn gwneud anrhegion Nadolig handi hefyd - mae pawb yn hoffi derbyn rhywbeth wedi ei wneud gartref yn hytrach nac wedi ei brynu o siop.

Os daw 'llaeth' allan o'r ffa melyn, mae'n barod i'w fwyta.

Os oes ôl malltod (blight) ar y tatws, torrwch y dail rhyw 3 wythnos cyn eu codi.

Gadewch y tatws i sychu ar wyneb y pridd am ychydig oriau. Storiwch nhw – ond dim ond y tatws iach - mewn sachau wedi iddyn nhw sychu'n dda.

Peidiwch â chodi pys a ffa o'r ddaear wedi iddyn nhw orffen tyfu. Mae eu gwreiddiau yn rhoi nitrogen i'r pridd.

Rhowch ychydig o fintys a phersli mewn potyn ar gyfer y gegin dros y gaeaf. Byddaf yn rhoi rhai perlysiau yn eu potiau yn y tŷ gwydr dros y gaeaf yn enwedig gorthyfail (*chervil*), llysiau'r gwewyr (*dill*), saets a rhosmari gan nad ydyn nhw'n hoffi oerni a gwlybaniaeth y gaeaf.

Hwyrach y bydd angen rhwyd i gadw'r adar oddi ar y bresych.

**Cyffredinol**

Tacluswch y gwely mefus rhag elfennau niweidiol.

Taflwch unrhyw ffrwythau sydd wedi pydru.

Dylech ddyfrio'r tŷ gwydr yn y bore; mae botrytis yn hoffi nosweithiau tamp ac oer. Caewch y drws yn y pnawniau.

Gellir hau hadau lawnt ym mis Medi. Gallwch hefyd fwydo lawnt sydd wedi'i hen sefydlu.

**Rhosyn Mynydd**

Dyma lun hyfryd o Rosyn Mynydd a dynnwyd yng Ngerddi Bodnant yn ddiweddar.



**Rhywbeth gwahanol**

Beth am ymweld â gardd rhywun arall i gasglu syniadau newydd a chynorthwyo elusennau?

Mae'r National Garden Scheme yn rhoi mynediad i dros 3,600 o erddi preifat yng Nghymru a Lloegr. Wrth dalu am fynediad i ardd, prynu paneidiau a chacennau ac ambell i blanhigyn gallwch gyfrannu at eu gwaith o godi arian i elusennau megis Macmillan Cancer Support, Mari Curie a Hospice UK. Mae rhai o'r gerddi ar agor ym mis Medi ac o fewn cyrraedd i ddarllenwyr yr Eco:

| Dyddiad | Lleoliad | Amser |
|---|---|---|
| Dydd Sul 11eg Medi, 2021 | Gerddi Botaneg Prifysgol Bangor, Gwynedd. LL57 2RQ | 10am - 1pm |
| Dydd Sul 19eg Medi, 2021 | Gardd y Coleg, Carmel, Gwynedd. LL54 7RL | 11am- 3pm |
| Dydd Sul 19eg Medi, 2021 | Llys-y-Gwynt, Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4BG | 11am - 4pm |

Ewch i wefan **www.ngs.org.uk/find-a-garden** am ragor o wybodaeth ac i archebu lle i chi gael ymweld a chael eich ysbrydoli.

# Ar ben arall i'r lein

Fel mae pawb yn dweud - tydi hi wedi bod yn rhyw flwyddyn ryfedd hyd yn hyn? Does dim i weld yn mynd fel y dylai hi, mae hyn yn wir cyn belled ag y mae pysgota yn y cwestiwn. I ddechrau, tydi'r tywydd ddim wedi bod yn ffafriol, gyda'r afonydd i gyd yn eithriadol o isel ac wrth reswm tydi hyn ddim yn denu 'sgotwrs at y glannau, er bod ychydig rai wedi mentro i lawr y Finiog a Glan Gwna. Ond, fel dwi ar ddeall, tenau iawn fu'r daliadau; ychydig o wyniadau yn unig sydd wedi dod i'r rhwyd, a dim un i guro'r un chwe phwys a ddaeth i enwair Adam Burton y mis diwethaf.

Heddiw, mae hi'n ddechrau ail wythnos Gorffennaf a dydw i heb fod allan o gwbl - sgwn i os yw'r awydd yn pallu! Ond heddiw fe ddaeth yr ysfa i fynd allan ar Padarn. Wedi gwrando'n astud ar ragolygon y tywydd a'r addewid o law a tharanau mawr dros nos, wel dyna hi meddaf wrth fy hun. Pen Llyn amdani, ond o gael golwg ar yr afon o'r maes parcio yn Crawia, dyna syndod a siomedigaeth: doedd yr afon heb godi hyd yn oed modfedd. Ond Pen Llyn amdani fodd bynnag, cael golwg ar y lle a'r dŵr isel, ond troi nôl am adref yn reit handi wnes i, dim pwrpas brwydro drwy'r dŵr tenau i gael y cwch dan y bont, a doedd gen i mo'r ffansi i fynd at y cwch yn Llanberis oherwydd y llif traffig oedd yn disgwyl yn y goleuadau ar ffordd Llanberis. Dros hanner awr o ddisgwyl i fynd a dyfod, wel dim diolch. Cofiwch pan fydd y ffordd wedi ei chwblhau mi fydd y lle werth chweil, a llwybr beics ardderchog wedi dod yn y fargen. Ond fedra i gario'r injan cwch, genwair a'r gŵr sgota ar gefn y beic tybed?

Er bod yr afonydd yn isel a thipyn o drafferth cael y cychod allan ar Padarn, mae'r llynnoedd eraill sef Cwellyn, Nantlle a Dywarchen yn cael tipyn o sylw. Sgwn i os mai'r nifer o ymwelwyr sydd o gwmpas sy'n gyfrifol am hyn? Mae tipyn o alw am docynnau'r llynnoedd, yn enwedig pan mae cwch i'w gael yn y fargen. Dyna ddiwrnod bendigedig ynde, ar Lyn Cwellyn drwy'r dydd, mwynhau'r pysgota a chael picnic bach ar y glannau. Ia, llefydd yw'r rhain ble does neb arall yn ymweld â nhw, peth anghyffredin iawn yn yr amser rhyfedd yma o gwmpas yr hen le 'ma. Fel mae Parc Cenedlaethol Eryri'n dweud – *Lle i enaid gael llonydd.*

O'r holl ddyfroedd, yr atyniad mwyaf ar y foment yw Llyn y Dywarchen. Mae'r polisi stocio misol yn eithriadol o boblogaidd, ac mae gwerthiant y tocynnau dyddiol yn dystiolaeth i boblogrwydd y lle, gydag ymwelwyr o bob rhan o'r wlad y dod i brofi'r fangre arbennig yma. Mae'r pysgota a safon y brithyll wrth gwrs yn eithriadol o bwysig. Mae ein diolch yn fawr i griw bach y Ddeorfa am gynnal yr holl fenter. Mae croeso i unrhyw aelod ddod draw i roi cymorth gyda'r gwaith. Os oes rhai'n fodlon dod draw, mae Goronwy'n dweud ei fod yn fodlon dangos iddynt sut i ddal yno!



**Gweithgarwch y gymdeithas**

Rydym fel cymdeithas yn eithriadol o ffodus fod nifer o sefydliadau'n cefnogi ein gwaith i hwyluso mynediad i'r glannau yn ogystal â darparu angorfeydd sydd yn ei gwneud yn hawdd defnyddio'r cychod. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at y defnydd sy'n cael ei wneud o'r cychod eleni, efallai fod y gwaith eleni yn adlewyrchiad o hyn. Dyma sydd wedi ei gyflawni.

Dalgylch y Seiont:
Mynedfeydd newydd i'r meysydd parcio yn Crawia a Phontrug.

Pontydd newydd dros ffosydd i lawr y Finiog a Llyn Glanrafon.

Ffens newydd ar y Finiog.

Ffensio i adfer cynefinoedd drwy gadw anifeiliaid o'r glannau a chreu llecynnau bwrw grawn ar afonydd Ffos y Dail a Perthi (Stablau).



Dalgylch y Llyfni:
Ffensio allan dir yr Ynys, Pontllyfni a thrwy hyn greu llwybr hwylus ar lan yr afon o Felin y Cim bron i Bont y Cim.

Tynnu'r hen gamfeydd a gosod giatiau. Felly, dim mwy o ddringo!

Adeiladu jeti newydd fel angorfa i'r cychod ar Lyn Nantlle. Mae'r gwaith yma bron â'i orffen.

Llyn Cwellyn:
Atgyweirio a glanhau allan yr harbwr angorfeydd.

Cofiwch hefyd fod cwch i ddefnyddwyr cadair olwyn ar gael ar Lyn y Dywarchen, gyda darpariaeth hwylus wedi ei greu i alluogi rhywun ag anabledd i gael defnydd o'r cwch. Siomedig iawn, hyd yn hyn yw'r ymateb wedi bod i'r cyfleuster yma.

Diolch o galon felly i bawb sydd yn ein cefnogi, sef sefydliadau fel Parc Cenedlaethol Eryri, Ymddiriedolaeth Afonydd y Gogledd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n rhannol gefnogi'r Ymddiriedolaeth, Cyngor Gwynedd am y gefnogaeth ddiffuant dros gyfnod argyfwng Covid-19, a'r ffermwyr a'r tirfeddianwyr lleol sydd wedi bod mor barod i ganiatáu i lawer o'r gwaith fynd ymlaen.

Mae'n werth adrodd, o ran gwybodaeth, fod pob ymgymerwr a busnes lleol sydd wedi gwneud y gwaith yn lleol a, diolch i'r drefn, yn Gymry Cymraeg - da de! Roedd o'n dipyn o syndod i ni oll pan adroddwyd yn lleol fod argyfwng mawr yn y busnes gweithgareddau awyr agored yn y fro, bod prinder mawr o ran hyfforddwyr Cymraeg. Wel, mae'n amlwg fod y gymdeithas bysgota'n gwneud rhywbeth unigryw yn y fro 'ma, er mai ychydig ohonom sy'n ysgwyddo'r baich. Felly, rhowch fwy o gymorth i'r gwaith rhag i iaith gweithredoedd y clwb o bosibl newid: dyna drychineb fuasai hynny.

**Pluen go arbennig**

Dros y blynyddoedd, rydym wedi colli llawer iawn o aelodau gwerthfawr iawn, rhai oedd yn arbenigwyr ar yr hen drefn o bysgota a chlymu plu. Roeddent eu hunain wedi cael llawer o wybodaeth a drosglwyddwyd iddynt gan eu cyfoedion. Un o'r rhain oedd Huw Dulyn Williams o Fethel, ond fel y byddai o'n dweud, byw ym Methel ond un o Nantlle oedd o. Dyma un stori gwerth ei hadrodd. Pan oeddwn yn 'sgota Llyn Nantlle, roeddwn yn hir iawn yn cael hwyl arni, hynny yw cyn i mi gael ychydig o wersi gan John Roberts, Y Groeslon. Yn ogystal â'r gwersi cefais nifer o blu ganddo. Wel, dyna newid ar fyd, yn enwedig un bluen. Do mi gafodd ddefnydd, ond buan iawn oedd rhaid cael un arall. Er chwilota drwy siopau a chatalogau pysgota am ddefnydd o'r lliw iawn, ofer fu'r dasg.
Ac felly bu hyd nes i Mrs Maud Williams, gwraig Huw, yn garedig iawn roi bocs o'i stwff clymu imi. Be' oedd ar ben y gŵr ond dau gerdyn yn cynnwys y lliwiau arbennig yma. Dyma lun o'r bluen lwyddiannus dwi'n ei galw yn JH (John a Huw). Dwi 'di clymu nifer, a does dim o'r stwff arbennig yma ar werth. Dyma fydd y dasg i chwi glymwyr, sef chwilio am y lliwiau arbennig yma, mae'n werth chwilota am ei bod yn dal!

Pan bron yn barod i anfon y bregeth yma i'r Eco, daeth neges *WhatsApp* i'r perwyl bod Grŵp Nofio Gwyllt yn adrodd bod ci wedi cael ei daro'n sâl iawn yn nofio yn Llyn Padarn: algai sy'n gyfrifol medd yr adroddiad. Felly byddwch yn ofalus gyda'ch anifeiliaid anwes.

Hwyl am y tro

**Huw Price Hughes**

# 'Football's Going Rome'




Ar ôl mis cyfan o bêl-droed daeth yr Euros i ben ar 11eg Gorffennaf gyda'r Eidalwyr yn fuddugol. Yn anffodus ni lwyddodd Cymru i fynd mor bell ag yr aethant yn 2016 ond serch hynny, dwi'n siŵr fod pob un ohonom yn falch iawn o berfformiad yr hogiau! Allan yn rownd yr 16 olaf oedd hanes Cymru ond o ystyried fod nifer fawr yn credu y byddent yn methu mynd allan o'r grŵp, dwi'n meddwl fod hynny yn cyfrif fel llwyddiant reit dda (yn enwedig o ystyried y rhwystrau oedd yn eu hwynebu megis y teithio a diffyg cefnogwyr). Roedd hi'n deimlad rhyfedd i wylio'r gemau o adref yn yr ystafell fyw yn hytrach na bod yn y stadiwm mae'n rhaid cyfaddef. Er ei fod yn dwrnamaint ychydig yn wahanol i'r arfer cawsom ein sbwylio gan safon ambell gêm gyda gôl ar ôl gôl!

**Hogia ni**

Gan droi i ddechrau at Gymru, doedd y disgwyliadau ddim yn uchel. Roedd nifer yn gwybod na fyddai'n hawdd cyrraedd uchelfannau 2016 unwaith eto ond roedd pawb eisiau breuddwydio. Cychwynnodd taith Cymru yn Baku yn erbyn Y Swistir ac erbyn hyn mae'r gêm honno yn teimlo yn bell iawn i ffwrdd. Embolo oedd y dyn i roi'r Swistir ar y blaen yn fuan yn yr ail hanner ac roedd Cymru yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r gôl gyfartal nes i Kieffer Moore, yr hogyn o Lanrug, benio'r bêl i'r rhwyd gyda chwarter awr yn weddill. Fe sgoriodd Y Swistir eto yn ystod 10 munud olaf y gêm ond diolch byth am VAR (rhywbeth fyddai ddim yn ei ddweud yn aml!!) cafodd y gôl ei dileu am gamsefyll. Gêm gyfartal 1 -1 oedd hi felly ar y diwedd, canlyniad da i Gymru o ystyried cymaint oedd Y Swistir yn pwyso am y fuddugoliaeth.

Twrci oedd yn wynebu Cymru nesaf, y gêm yma hefyd yn cael ei chwarae yn Baku. Roedd hynny yn dipyn o fantais i Dwrci ac felly yn teimlo fel gêm gartref iddyn nhw. Fe fethodd Cymru gyfle ar ôl cyfle yn yr hanner cyntaf gydag Aaron Ramsey yn torri'r deadlock o'r diwedd cyn hanner amser. Mi fyddai Aaron Ramsey wedi gallu cael hat-trick yn yr hanner cyntaf! Aeth pethau reit nerfus i Gymru yn yr ail hanner gyda Thwrci yn cael ambell i gyfle a Gareth Bale yn methu cic o'r smotyn. Gorfodwyd Danny Ward i wneud arbediad gwych i wrthod cyfle gan Demiral i roi Twrci'n gyfartal ym munudau olaf y gêm. Ond doedd Cymru heb orffen eto, yn y munudau ychwanegol dyma Connor Roberts yn sicrhau'r fuddugoliaeth gydag assist gan Gareth Bale gan orffen y gêm yn 2-0. Mae'n debyg nad oedd Twrci cweit y ceffylau tywyll roedd pawb yn tybio y bydden nhw cyn dechrau'r twrnamaint.

Roedd rhaid teithio i Rufain i wynebu Yr Eidal ar gyfer gem olaf y grŵp i Gymru. Doedd hi ddim yn cymryd arbenigwr i wybod y byddai'r gêm hon yn un anodd. Yr Eidal oedd y tîm cryfaf yn y grŵp ac roedden nhw yn dal yn ddiguro. Heb unrhyw amheuaeth roedd Yr Eidal dominyddu'r chwarae drwy gydol y gêm ac fe sgoriodd Pessina i roi'r Eidalwyr ar y blaen cyn hanner amser. Am hanner awr olaf y gêm roedd Cymru lawr i 10 dyn ar ôl i Ethan Ampadu dderbyn cerdyn coch dadleuol iawn. Fe wnaeth Cymru yn andros o dda felly i ddal eu tir gan beidio ildio gôl arall, ac fe orffennodd yn 1-0. Roedd gêm arall y grŵp yn cael ei chwarae'r un amser felly roedd un llygad ar honno i weld os oedd Cymru drwodd i'r rownd nesaf yn awtomatig neu os byddent yn gorfod disgwyl am ganlyniadau gweddill y grwpiau. Wrth lwc, gan mai dim ond un gôl ildiodd Cymru fe wnaethant orffen yn yr ail safle, o ganlyniad i wahaniaeth goliau, gyda'r Swistir yn cymryd y trydydd safle.

Ymlaen aeth Cymru felly i rownd yr 16 olaf gyda Denmarc yn eu hwynebu yn Amsterdam. Roedd hi'n gêm oedd yn teimlo fel Cymru yn erbyn y byd. Gyda digwyddiad erchyll y gêm gyntaf yn erbyn Y Ffindir a welodd Christian Eriksen yn cael ei daro'n wael roedd y byd i gyd o blaid gweld Denmarc yn llwyddo yn y gystadleuaeth gan obeithio efallai cael stori tylwyth teg. Mae'n debyg fod Cymru wedi darllen y sgript gan mai Denmarc oedd yn fuddugol. Cafodd Dolberg ddwy gôl i Ddenmarc gyda roced o ergyd o du allan i'r cwrt cosbi yn yr hanner cyntaf ac yna yn manteisio ar gamgymeriad gan Neco Williams ar ddechrau'r ail hanner. Roedd Cymru yn gwneud popeth ond sgorio ac fe aeth pethau o ddrwg i waeth wrth i Ddenmarc sgorio trydedd gôl, yna ychydig funudau wedyn dyma Harry Wilson yn derbyn cerdyn coch (eto, un dadleuol) ym munud 90. I orffen pethau fe sgoriodd Denmarc gôl rhif 4 gan ennill 4-0. Fe enillodd y tîm gorau ar y diwrnod heb os ond mae'n rhaid dweud fod y sgôr yn eithaf llym ar Gymru. Daeth y freuddwyd felly i ben ond fe all y tîm ddal eu pennau yn uchel iawn am yr hyn a gyflawnodd.

**Persbectif**

Yn ei gyfanrwydd mae'n saff dweud fod y twrnamaint wedi bod yn un gwahanol i'r arfer rhwng popeth. Ar ddechrau'r gemau grŵp fe ddistawodd y byd a doedd pêl-droed yn golygu dim am enaid wrth i bawb weddïo y byddai Christian Eriksen yn iawn wrth iddo gael triniaeth ar y cae am sawl munud. Roedd cryfder ei gyd-chwaraewyr yn ei warchod rhag y camerâu yn rhywbeth na fydda i'n ei anghofio. Mae'n braf iawn erbyn hyn gweld

# Elusen 'Cofio Robin' yn rhoi cymorth i chwaraeon



**Ydych chi'n anelu yn uchel ym myd chwaraeon? Eich bryd ar chwarae dros Gymru? Am chwarae yn Wimbledon? Rasio yn y Tour de France?**

Os mai chwaraeon yw eich byd a'ch bod yn rhagori mewn rhyw faes arbennig yna gall elusen 'Cofio Robin' fod o gymorth.

Mae Cronfa 'Cofio Robin' yn rhoi cymorth ariannol yn flynyddol i unigolion o Wynedd a Chonwy sydd yn rhagori mewn chwaraeon. Mae'r elusen dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi helpu dros 50 o unigolion gyda chyfraniadau rhwng £100 a £1,500.

Bydd y rownd nesaf o geisiadau yn cau ar 30ain Medi, 2021.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.cofiorobin.co.uk

ei fod yn gwella.

Mae Gogledd Macedonia yn haeddu cael eu crybwyll wrth iddyn nhw gamu i lwyfan mawr yr Euros am y tro cyntaf yn eu hanes. Yn anffodus iddyn nhw doedden nhw ddim am fyw breuddwyd Cymru o 2016 am iddyn nhw golli pob un o'u gemau grŵp. Mae un peth yn sicr fodd bynnag, nid tîm i lenwi'r rhifau mohono nhw wrth iddyn nhw roi gemau cystadleuol iawn a gwrthod ildio heb roi tro iawn arni.

**Final 'ta Finale?**
Roedd llwyfan y ffeinal felly wedi ei osod ar gyfer Yr Eidal yn erbyn Lloegr. Roedd y fantais yn amlwg i Loegr, tîm oedd wedi chwarae pob gêm heblaw am un ar dir cartref, a gyda Wembley unwaith eto'n llawn o gefnogwyr (swyddogol ac answyddogol). Yn mynd mewn i'r gêm roedd Yr Eidal heb eu curo mewn 33 gêm. Ai Lloegr oedd y tîm i ddod â hynny i ben? Yr ateb syml oedd naci (diolch byth!). Dechreuodd y gêm gyda Lloegr ar y droed flaen wrth i Luke Shaw eu rhoi ar y blaen o fewn 2 funud. Doedd yr Eidalwyr ddim i weld fel nhw eu hunain yn ystod yr hanner cyntaf o gwbl. Chiesa oedd yr unig un oedd yn creu cyfleoedd iddyn nhw ond fe daniodd rhywbeth ynddyn nhw yn ystod yr ail hanner. Roedd Lloegr yn methu dal eu tir ac fe sgoriodd Bonucci i'w gwneud hi'n gyfartal. Yr Eidal oedd yn edrych fel y tîm mwyaf bygythiol ond fe aeth y gêm i giciau o'r smotyn yn y diwedd. Wrth gyrraedd y gic o'r smotyn olaf roedd Lloegr wedi methu dwy a'r Eidal wedi methu dwy. Roedd yn rhaid felly i Saka sgorio. Daeth Donnarumma i achub y dydd i'r Eidal ac i ennill yr Euros wrth iddo arbed y gic! Am y tro cyntaf yn hanes yr Euros Yr Eidal oedd y tîm cyntaf i ennill dwy ornest ciciau o'r smotyn yn olynol a nhw yw Pencampwyr Ewrop! *"Football's Going Rome"!*

**Pwy yw'r sêr?**
Mae nifer o chwaraewyr wedi serennu yn y gystadleuaeth. Leonarda Spinazzola, byddai llawer yn cytuno gyda mi dwi'n siŵr, oedd un o sêr mwyaf y twrnamaint ac mae'n bechod ei fod wedi cael anaf yn gêm rownd yr 8 olaf gan achosi iddo golli'r rownd gynderfynol a'r ffeinal. Mae Simon Kjær, capten Denmarc, wedi hawlio ei le fel arwr am iddo chwarae rhan allweddol yn y pen draw i achub bywyd Eriksen ac am ddangos arweiniad anhygoel i'w gyd-chwaraewyr. Goran Pandev yn 37 mlwydd oed yn sgorio gôl gyntaf Gogledd Macedonia yn yr Euros hefyd yn haeddu cael ei grybwyll. Cafodd Danny Ward berfformiadau gorau ei fywyd i Gymru'r haf hwn a dwi'n siŵr y bydd rhestr o glybiau pêl-droed ar ei ôl o eleni yn ystod y ffenestr drosglwyddo. Donnarumma, gôl geidwad Yr Eidal, enillodd wobr Chwaraewr y Twrnamaint a Pedri o Sbaen yn ennill gwobr Chwaraewr Ifanc Gorau'r Twrnamaint.

Roedd hi'n chwip o dwrnamaint a bydd pawb dwi'n siŵr yn edrych ymlaen at Gwpan y Byd 2022 rŵan!
**Mared Rhys**

# Bethel yn Haen 2 Cyngrheiriau Merched Cymru



Mae tîm pêl-droed merched Bethel yn falch o gyhoeddi y byddant yn rhan o 2il haen cynghrair Merched Cymru ar gyfer y tymor newydd. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi ail-strwythuro Cynghreiriau pêl-droed merched ar draws y wlad yn ystod y misoedd diwethaf yn barod ar gyfer y tymor newydd.

Mae'r newidiadau yn golygu sefydlu Cynghreiriau newydd sbon gan gynnwys Cynghrair Haen 1af a 2 Gynghrair 2il haen sydd yn cael ei rhannu rhwng y Gogledd a'r De. Mi fydd 7 tîm arall yn cystadlu yng Nghynghrair 2il Haen y Gogledd gyda Bethel. Y timau rheiny yw Airbus, Cei Connah, Llandudno, Llanfair United, Pwllheli, Tref Dinbych a Wrecsam.

Mae'n ymddangos fod 37 clwb wedi rhoi cais ymlaen i gael eu cynnwys yn y strwythur newydd hwn felly roedd cystadleuaeth uchel iawn i ennill lle yn un o'r Cynghreiriau. Dywed Clwb Pêl-droed Bethel eu bod wedi gorfod gweithio yn galed iawn i baratoi'n drylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn pasio pob cam o'r gofynion i ymuno â'r Gynghrair. Mi fydd y tîm yn chwarae eu gemau yng Nghae Seilo ac mi roedd hynny yn elfen hanfodol o'r penderfyniad mae'n debyg gan fod




y lleoliad yn cynnwys y cyfleusterau gofynnol.

Fe hoffai'r Clwb ddiolch i Recordiau Côsh sydd yn garedig wedi noddi cit newydd y tîm ar gyfer y tymor newydd. Cafodd y tîm ddigon o hwyl gyda Yws Gwynedd wrth iddo ymuno yn un o'r ymarferion!

Pob lwc felly i Glwb Pêl-droed Merched Bethel yn y tymor newydd!

# Cwpan Cymru – Rownd Ragbrofol

**Llanberis 4 Llanrug 2**
Dwy gêm. Dwy ddarbi. Un fuddugoliaeth yr un. Dyna ddechrau tymor 'gystadleuol' y ddau dîm. 3-2 i Lanrug yn y gêm gynghrair ar Faes Padarn y Sadwrn cynt.

Llanrug ddechreuodd yn hyderus, ond heb allu manteisio ar ambell hanner cyfle. Colli Michael Owen y chwaraewr ganol cae dylanwadol drwy anaf yn achosi ad-drefniant i strwythur Llanrug. Y Darans yn cryfhau, ond peniad Aaron Hughes o groesiad y bywiog Kevin Lloyd yn rhoi hogia Eithin Duon ar y blaen. 0 – 1. Daeth Llanberis yn ôl yn gryf. Ifan Monsoor yn taro'r trawst, a Gerallt Bracegirdle – seren y gêm – yn y gôl i Lanrug â sawl arbediad safonol. Ond dau funud o'r egwyl, Nidian Huws yn unioni'r sgôr. 1 -1.

Yn amlwg, hogia Llanberis gafodd yr ysgogiad gryfaf dros yr hanner, gan iddynt rwydo dwywaith ym mhum munud cyntaf yr ail hanner. Thomas Collins a Kurt Helfeld yn rhwydo. 3-1. I'r cae daeth yr 'hen ben' David Noel Williams, â Llanrug yn adennill meistrolaeth ganol cae. Chwip o ergyd gan Cai Edwards yn rhoi gobaith i Lanrug. 3-2, ac 20 munud i fynd. Dal i bwyso'n aflwyddiannus wnaeth Llanrug ond yn y funud olaf gwrthymosodiad, a Gwyn Pritchard Jones yn selio'r fuddugoliaeth i Lanberis yn erbyn ei gyn-glwb. Dwy gêm gystadleuol, llawn goliau. Edrychwn ymlaen at gemau cyffelyb weddill y tymor. Tybed sut hwyl gaiff y ddau glwb yn Nhlws CPD Cymru?

## COLOFN CHWARAEON

# Newid: Er gwell, er gwaeth?

Un o brif ddylanwadau Covid-19 fydd y newid ddaw yn ei sgil yn gymdeithasol, grefyddol a sawl maes arall. Ac yn strwythurau'r pyramid pêl-droed bydd newidiadau amlwg iawn. Bydd Uwch Gynghrair Cymru yn aros. Oddi tano bydd dwy adran o glybiau Haen 2 Gogledd a De a phencampwyr y cynghreiriau yma fydd yn esgyn i'r Brif Adran. Yna clybiau Haen 3 gydag ymdrech yma i leihau'r teithio drwy ffurfio pedair Cynghrair Ardal – Gogledd Orllewin/Dwyrain a De Orllewin/Dwyrain. Bydd 16 clwb yng nghynghreiriau ardal (Dyffryn Nantlle a'r Felinheli sydd agosaf i ni), ceir Uwch Gynghrair Arfordir y Gogledd. Yna yn Haen 4 daw Llanberis a Llanrug fydd yn cystadlu yn Uwch Adran y Gorllewin o Gynghrair yr Arfordir. Yr atyniad yn yr adran yma fydd Bangor 1876 â'i thorf niferus sy'n eu dilyn i gemau oddi cartref. Oddi tanynt bydd Waunfawr yn cystadlu yn Adran 1 y gynghrair Arfordirol.

Ar wahân i gemau cynghrair bydd gemau cwpan ym mhob ardal. Hefyd bydd timau cyn ised â Haen 4 yn rowndiau blaenorol Cwpan Cymru. Yma eleni gwnaed ymdrech i'r gemau yma fod mor lleol (darbis) ag sy'n bosib. Yng ngêm gynghrair gyntaf y tymor Llanberis 2 Llanrug 3 oedd y sgôr terfynol, gyda'r gôl fuddugol yn dod yn yr eiliadau olaf. Mae'r ddau dîm wedi cyfarfod ddwywaith yn barod, ac mae adroddiad manylach am y gêm yn rownd ragbrofol gyntaf Cwpan Cymru i'w weld ar wahan.

Erbyn i chi dderbyn y rhifyn yma bydd Llanberis (ym Montnewydd), Llanrug (yn Nyffryn Nantlle) a Waunfawr (gartref i Nefyn) wedi cystadlu yn rownd gyntaf yn Nhlws CPDC. Mae Llanrug yn gyn-enillwyr y cwpan yma fe gofiwch.

Un datblygiad diddorol eleni yw'r ap CYMRU FOOTBALL. Gallwch ei ddefnyddio ar eich ffôn symudol. Fel y teleprinter ers talwm cewch wybod y sgôr gyfredol a'r sgorwyr ym mhob haen ar yr ap yma. Gallwch felly fynd i gefnogi eich timau lleol a dilyn y sgoriau mewn gemau eraill yn y gynghrair. Datblygiad da iawn yn fy marn i. Rwy'n clywed fod ambell i chwaraewr lleol yn sythu yn barod o wybod ei fod wedi 'mynd yn genedlaethol'.



Beca Wyn Owen (chwith) a Summer Girling (dde)





**Llwyddianus ar y Llethrau**

Ein bwriad yng Ngholofnau Chwaraeon yr Eco yw ceisio adlewyrchu cymaint o ystod campau ag sy'n diddori pobl yr ardal. Braf felly oedd derbyn yr adroddiad yma gan Heulwen Jones am Bencampwriaeth Sgïo Ysgolion Rhanbarthol Cymru 2021 a gynhaliwyd ar lethrau 'pob tywydd' Llandudno. Gobeithio na fydd yr adroddiad yn torri calonnau'r rhai ohonoch a fethodd fynd ar wyliau sgïo eleni.

"Daeth timau o 11 Ysgol Uwchradd i gystadlu yn Llandudno. Roedd 13 o ddisgyblion yn nhîm Ysgol Brynrefail, gydag oedrannau yn ymestyn o flwyddyn 7 i flwyddyn 13. Un tîm oedd gan fechgyn Ysgol Brynrefail a daethant yn drydydd yn y tabl terfynol. Roedd pedwar tîm merched o wahanol safon ac ar y diwedd cipwyd safleoedd cyntaf, trydydd, pumed a seithfed. Yn amlwg roedd yr ymarfer wythnosol wedi dwyn ffrwyth ac elfen gystadleuol disgyblion Brynrefail yn ffactor sicr. Bu sawl perfformiad unigol gwych a ddenodd sawl safle cyntaf.

Alys Chisolm (1af, dan 21), Molly Chisolm (1af, dan 18), Megan Ingle (1af, dan 16), Eirwen Howarth (1af, dan 16), Hannah Brotheridge (1af, dan 14), Seren Ellis (2il, dan 14), Cadi Mai Owen (3ydd, dan 14), Rufus Littlejohn (1af, dan 16), Merlin Ingle (2il, dan 14) a Gruff Evans (1af, dan 14).

Roedd cynrychiolaeth o Ysgol Gynradd Llanrug hefyd, a derbyniodd Summer Girling fedal aur am arwain y categori dan 12, a Beca Wyn Owen y fedal arian yn yr un categori. Perfformiadau i'w canmol.

Edrychwn ymlaen at weld os gellir cynnal y llwyddiant yn y gystadleuaeth nesaf yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog ym mis Hydref."

w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

ISSN 2516-7235